

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Awdurdod

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 3 (Ebrill 2025 - Mawrth 2040)

Arfarniad o Gynaliadwyedd (yn ymgorffori
Asesiad Amgylcheddol Strategol)

Adroddiad Cwmpasu: Atodiad A – Adolygiad o
Gynlluniau, Polisiâu a Rhaglenni Perthnasol

Drafft Ymgynghori: Ionawr 2026



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park

Adolygiad o Gynlluniau, Polisiâu a Rhaglenni Perthnasol

Mae llawer o'r polisiâu, cynlluniau a rhaglenni (PPP) iefel Ryngwladol y cyfeirir atynt yn yr Adolygiad hwn o Gynlluniau, Polisiâu a Rhaglenni wedi'i gweithredu mewn polisiâu, cynlluniau neu raglenni Cenedlaethol neu ranbarthol. Felly mae mwy o fanylion ar sut y bydd PPP yn dylanwadu ar Gynlluniau'r Parc Cenedlaethol wedi'u cynnwys yn y cyfeiriadau at Gynlluniau Cenedlaethol a Rhanbarthol. Mae'r PPPs Rhyngwladol wedi'u cynnwys yma er cyflawnder ac i roi gwybodaeth fynediad ar sut i hael gafael ar y dogfennau.

Rhyngwladol

Cynllun, Polisi neu Raglen
Agenda 21 Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig 1992
Datganiad Rio ar yr Amgylchedd a Datblygu UNEP 1992
Adroddiad Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy, Y Cenhedloedd Unedig (2002)
Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (COP 27)
Protocol Kyoto y Cenhedloedd Unedig 1997
Y Confensiwn ar Rywogaethau Mudol UNEP 1979
Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol UNEP 1992
Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd UNESCO 1971
Confensiwn Aarhus Comisiwn Economaidd Ewrop, y Cenhedloedd Unedig 1998
Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Ddatblygu Cynaliadwy, RIO+20
Fframwaith Sendai ar gyfer Lleihau Risg Trychinebau (2015-2030)
Agenda Gweithredu Addis Ababa ar Gyllido Datblygu (2015)
Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy
Cytundeb Cytundeb Paris (2015)
Cyfarwyddeb UE 2009/147/EC (ar Gadwraeth Adar Gwyllt, a adwaenir hefyd fel 'Y Gyfarwyddeb Adar') Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd 30 Tachwedd 2009, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad (EU) 2019/1010, Mehefin 5 2019
Nodiadau: Mae'r Gyfarwyddeb yn rhoi fframwaith ar gyfer cadwraeth a rheolaeth adar gwyllt yn Ewrop, a sut mae pobl yn rhyngweithio â hwy. Mae'n cyflwyno amcanion cyffredinol ar gyfer ystod eang o weithgarwch, er bod gan bob Aelod-

Arfarniad o Gynaliadwyedd **Cynllun Datblygu Lleol 3**

Atodiad A – Adolygiad o Gynlluniau, Polisiâu a Rhaglenni Perthnasol

wladwriaeth ddisgresiwn ynglŷn â sut yn union mae'n eu cyflawni (yn y DU cânt eu cyflawni drwy sawl statud wahanol). Ffynhonnell: JNCC.

Mae ystod eang o weithgarwch statudol ac anstatudol eraill sy'n helpu i weithredu'r Gyfarwydddeb Adar yn y DU. Maent yn cynnwys cynlluniau monitro adar cenedlaethol, ymchwil i gadwraeth adar, Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU sy'n cynnwys gweithredu yn achos nifer o rywogaethau adar a'r cynefinoedd sy'n eu cynnal. Yn y DU, mae darpariaethau'r Gyfarwydddeb Adar yn cael eu gweithredu drwy Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd), a Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol &c.) 2017. Mae'r 'Rheoliadau Cynefinoedd' yn gymwys i diroedd y DU a'i moroedd tiriogaethol (hyd at 12 milltir forol o'r arfordir). Ffynhonnell: JNCC.

Ystyriaethau CDLI: Cynnal Asesiad Rheoliad Cysgwch i asesu effaith debygol y LDP ar safleoedd wedi'u gwarchod, i sicrhau na fydd y cynllun yn effeithio'n niweidiol ar uniondeb cynefinoedd neu rywogaethau dynodedig.

[Cyfarwydddeb UE 85/337/EEC \(y Gyfarwydddeb EIA\) Cyngor yr Undeb Ewropeaidd](#)

Nodiadau: Diwygiwyd gan Gyfarwydddeb y Cyngor 97/11/EC, 2003/35/EC, 2009/31/EC a gwelliannau dilynol wedi'u codeiddio gan Gyfarwydddeb y Cyngor 2011/92/EU a Chyfarwydddeb y Cyngor 2014/52/EU

[Cyfarwydddeb UE 91/676/EEC \(y Gyfarwydddeb Nitradau\) Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 1991](#)

[Cyfarwydddeb UE 92/43/CEE \(y Gyfarwydddeb Cynefinoedd\) Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd 21 Mai 1992](#)

Nodiadau: Mae'r Gyfarwydddeb yn creu rhwydwaith o safleoedd yn Ewrop i warchod bioamrywiaeth. Mae'r safleoedd hyn wedi'u dynodi fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) (a adwaenir gyda'i gilydd fel safleoedd 'Natura 2000'). Rhaid i brosiect neu gynllun datblygu sy'n debygol o gael effaith sylweddol (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) ar safle Natura 2000 fod yn destun 'asesiad priodol'. Os bydd yr asesiad yn dangos bod y cynllun neu brosiect yn debygol o danseilio'r amcanion gwarchodaeth ar gyfer y safle ni chaiff y cynllun neu brosiect fynd yn ei flaen oni bai bod 'rhesymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig'. Os mai dyna fydd yr achos yna rhaid rhoi mesurau lliniaru neu iawndal priodol ar waith. Mae 16 o safleoedd Natura 2000 sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn y Parc Cenedlaethol.

[Cyfarwydddeb UE \(2008/50/EC\) \(y Gyfarwydddeb Fframwaith Ansawdd Aer Newydd\) Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 11 Mehefin 2008](#)

[Cyfarwydddeb UE 1999/31/EC \(y Gyfarwydddeb Tirlenwi\) Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 1999](#)

[Cyfarwydddeb UE \(2008/56/EC\) \(y Gyfarwydddeb Fframwaith Strategaeth Forol\)](#)

Cyfarwydddeb UE 2000/60/EC (y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd 23 Hydref 2000

Nodiadau: Mae'n cyflwyno 'statws da', safon ansawdd dŵr llymach. Mae'r gyfarwydddeb yn cynnwys gofyniad am 'Gynlluniau Rheoli Basn Afon' a ddylai ddylanwadu ar Gynlluniau Datblygu a chael ei dylanwadu ganddynt. Mae gwella ansawdd dŵr a rheoli adnoddau dŵr yn cyd-fynd â dibenion y Parc Cenedlaethol. Un o brif ganlyniadau'r ddeddfwriaeth yw Cynllun Rheoli Basn Afon. Cyfyngiadau ar amserlenni.

Gosododd Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 y fframwaith cyfreithiol ar gyfer diogelu a gwella'r amgylchedd dŵr, gan gynnwys fframwaith ar gyfer diogelu ac annog defnydd cynaliadwy o bob corff dŵr i gyflawni statws da.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn diogelu ansawdd dŵr ac yn cefnogi ymdrechion i gyflawni amcanion statws da.

[Cyfarwydddeb UE 2002/49/EC \(Cyfarwydddeb ar Sŵn Amgylcheddol\) Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd 2002](#)

[Cyfarwydddeb UE 2003/35/EC \(Cyfarwydddeb yn caniatáu Cyfranogiad y Cyhoedd\) Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd 2003](#)

[Cyfarwydddeb UE 2004/35/CE \(y Gyfarwydddeb Atebolrwydd Amgylcheddol\) Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd 2004](#)

[Cyfarwydddeb UE 2008/98/EC \(y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff\) Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd 19 Tachwedd 2008](#)

Confensiwn Tirweddau Ewrop, Cyngor Ewrop 2000
Cynnig ar gyfer Rhaglen Weithredu Amgylcheddol newydd yr UE hyd 2020, y Comisiwn Ewropeaidd 2012
Confensiwn Cadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop, Cyngor Ewrop 1979
RHEOLI SAFLEOEDD NATURA 2000 Darpariaethau Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb 'Cynefinoedd' 92/43/CEE, y Comisiwn Ewropeaidd 2000
Y Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd Ewropeaidd, y Comisiwn Ewropeaidd 2000
Y Fargen Werdd Ewropeaidd
Rhaglen Weithredu Amgylcheddol Gyffredinol yr Undeb i 2020
Cytundeb Hinsawdd Glasgow
Cyfarwyddeb 2006/7/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, dyddiedig 15 Chwefror 2006 sy'n ymwneud â rheoli ansawdd dyfroedd ymdrochi ac yn diddymu Cyfarwyddeb 76/160/EEC (legislation.gov.uk)
Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 (legislation.gov.uk)
Mae'r rheoliadau uchod yn dirymu a disodli ac yn gweithredu Cyfarwyddeb 2006/7/EC
Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal (COP15, 2022) Nodiadau: Mae'r fframwaith hwn, a fabwysiadwyd yn COP15 ym mis Rhagfyr 2022, yn disodli Targedau Bioamrywiaeth Aichi ac yn nodi pedwar nod hirdymor ar gyfer 2050 a 23 targed byd-eang sy'n canolbwyntio ar weithredu ar gyfer 2030. Mae'n cynnwys ymrwymadau i ddiogelu 30% o ardaloedd tir a môr yn fyd-eang, adfer 30% o ecosystemau sydd wedi dirywio, a lleihau llygredd a rhywogaethau goresgynnol. Ystyriaethau CDLI: Gall y cam safleoedd ymgeisiol ddarparu cyfleoedd i safleoedd gael eu cyflwyno ar gyfer gwella bioamrywiaeth; safleoedd y gellid wedyn eu dynodi/dyrannu yn y cynllun.

Y Deyrnas Unedig

Cynllun, Polisi neu Raglen
<u>Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, Senedd y DU 2000</u> Nodiadau: Mae hon yn cynyddu hawl y cyhoedd i fwynhau cefn gwlad ac ar yr un pryd yn sicrhau mesurau diogelu i dirfeddianwyr a meddianwyr. Mae'r Ddeddf yn rhoi hawl mynediad newydd i'r cyhoedd i fynyddoedd, rhosydd, twyndiroedd a thiroedd comin cofrestredig. Mae hefyd: yn cydnabod anghenion tirfeddianwyr a rheolwyr; yn gwella deddfwriaeth hawliau tramwy drwy annog creu llwybrau newydd a rhoi eglurhad lle mae ansicrwydd ynglŷn â pha hawliau sy'n bodoli eisoes; mae'n rhoi sail statudol i gadwraeth bioamrywiaeth a wnaed yn flaenorol fel mater o bolisi; mae'n gwella'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â hysbysu, gwarchod a rheoli SoDdGA; mae'n cryfhau gwarchodaeth gyfreithiol i rywogaethau dan fygythiad ac mae'n diweddarau Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd); mae'n helpu i reoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Ffynhonnell: DEFRA. Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn diweddarau'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad ac mae'n cynnwys gwarchodaeth uwch i SoDdGA yn ogystal â rhoi sail gyfreithiol i weithredu ar fioamrywiaeth. Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod datblygiad yn cefnogi ac yn gwella mynediad i gefn gwlad a'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.
<u>Deddf yr Amgylchedd 1995, Senedd y DU 1995</u> Nodiadau: Mae'n diffinio dibenion parciau cenedlaethol, y ddyletswydd economaidd gymdeithasol a'r rhwymedigaeth ar eraill i weithredu dibenion parciau cenedlaethol. Mae'r rhoi cyfarwyddyd clir ar sut i lunio nodau, amcanion a pholisïau'r ddau Gynllun. Sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng cyflawni'r dibenion a'r ddyletswydd economaidd gymdeithasol. Prawf Silkins. Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn cyd-fynd â dibenion statudol y Parc Cenedlaethol.
<u>Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990</u> Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn ddeddfwriaeth ar lefel y DU sy'n rheoleiddio rheoli gwastraff, rheoli allyriadau i'r aer, i ddŵr a'r tir a'r defnydd o organebau wedi'u haddasu'n eneteg. Ei nod yw sicrhau bod diwydiannau'n cyflawni eu gweithgarwch mewn ffordd sy'n cael ei rheoli ac sy'n ddiogel i'r amgylchedd. Ystyriaethau CDLI: Strategaeth, cynigion a pholisïau'r CDLI ar reoli gwastraff i gydymffurfio â'r Ddeddf.
<u>Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010</u> Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn Ddeddf gan Senedd y DU sydd â'r nod o leihau perygl llifogydd sy'n gysylltiedig â thywydd eithafol, sy'n cael ei waethygu oherwydd newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn annog defnydd o systemau draenio trefol cynaliadwy (SUD), mae'n diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr i foderneiddio'r rhestr o

Arfarniad o Gynaliadwyedd **Cynllun Datblygu Lleol 3**

Atodiad A – Adolygiad o Gynlluniau, Polisiâu a Rhaglenni Perthnasol

weithgareddau y gall cwmnïau dŵr gyfyngu arnynt yn ystod sychder, ac mae'n ei gwneud yn haws i gwmnïau dŵr gynnig tariffau is i grwpiau penodol. Mae'r Ddeddf yn galluogi mesurau rheoli perygl llifogydd gwell a mwy cynhwysfawr i bobl, cartrefi a busnesau; mae'n helpu i ddiogelu grwpiau cymunedol rhag codiadau anfforddiadwy mewn costau draenio dŵr wyneb; mae'n helpu cwsmeriaid mewn amgylchiadau agored i niwed; ac mae'n diogelu cyflenwadau dŵr i gwsmeriaid.

Mae'r Ddeddf wedi'i rhannu'n dair rhan. Mae Rhan 1 yn delio â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, gan gynnwys cysyniadau a diffiniadau allweddol, strategaethau, cydweithredu a chyllido, pwerau a dyletswyddau atodol, a phwyllgorau llifogydd ac arfordirol ar gyfer rhanbarthau yn Lloegr. Mae Rhan 2 yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau fel draeniad cynaliadwy, cronfeydd dŵr, gweinyddiaeth arbennig, darparu seilwaith, defnydd dŵr, a rheoliadau adeiladu. Mae Rhan 3 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol, gan gynnwys diwygiau cyd-gydgrynhoi, is-ddeddfwriaeth, a darpariaethau technegol ¹.

Ystyriaethau CDLI: Mae strategaeth, cynigion a pholisïau'r CDLI yn ystyried rheolaeth llifogydd a dŵr i gyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd risg uchel, ac maent yn gofyn am Systemau Draenio Cynaliadwy lle bo angen. Ymgorffori risg llifogydd yn y fframwaith Asesu Cynaliadwyedd.

Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, Senedd y DU 2006

Nodiadau: Wedi sefydlu 'Natural England' a'r 'Comisiwn Cymunedau Gwledig'. Mae'n gwneud newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio deddfwriaeth cadwraeth natur, ac sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfau ar gyfer cerbydau modur (gan roi pwerau i Barciau Cenedlaethol i wneud gorchmynion rheoleiddio traffig); SoDdGA ac mae'n ehangu dyletswydd bioamrywiaeth Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er enghraifft. Bydd yn helpu i greu amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol Ffynhonnell: Defra.

Ystyriaethau CDLI: Rhaid i'r CDLI adlewyrchu'r ddyletswydd bioamrywiaeth sydd wedi'i chryfhau yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol o gynnydd tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy

Mae hwn yn adroddiad cynhwysfawr sy'n edrych ar y cynnydd a wnaed tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy ac mae'n rhoi trosolwg o sut mae'r DU yn gweithredu'r nodau hynny. Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n dair rhan: cyflwyniad, adolygiad o'r cynnydd tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy, ac atodiad ystadegol. Mae'r adolygiad o'r cynnydd tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy hefyd wedi'i rannu'n bedair adran: pobl, y blaned, ffyniant, a heddwch. Mae'r adroddiad yn amlygu cyflawniadau'r DU mewn meysydd fel addysg, iechyd, a chydraddoldeb rhywedd, ac mae hefyd yn cydnabod yr heriau sy'n aros. Mae'r atodiad ystadegol yn cynnwys data ar y dangosyddion a ddefnyddir i fesur cynnydd tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn cyd-fynd â nodau datblygu cynaliadwy a fydd yn cael eu hasesu drwy'r Arfarniad Cynaliadwyedd.

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) Senedd y DU 1981

Nodiadau: Y prif fodd i warchod bywyd gwyllt ar dir mawr Prydain. Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd yw'r prif fecanwaith ar gyfer gwarchodaeth ddeddfwriaethol i fywyd gwyllt ar dir mawr Prydain. Dyma'r cyfrwng i weithredu'r Confensiwn ar Warchod Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop ('Confensiwn Bern') a Chyfarwydddebau'r Undeb Ewropeaidd ar Warchod Adar Gwyllt (2009/147/EC) a Chynefinoedd Naturiol a Ffawna a Fflora Gwyllt (92/43/FFC) ym Mhrydain Fawr. Mae deddfwriaeth debyg yn cael ei deddfu i gyflawni'r rhwymedigaethau hyn mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Ffynhonnell: Naturenet. Methodd y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (fel y'i diwygiwyd) i raddau helaeth i warchod cynefinoedd a rhywogaethau na'u diogelu rhag pwysau o wahanol fathau, ar SoDdGA yn ogystal ag yng nghefn gwlad yn gyffredinol. Roedd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn diweddu'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn sylweddol ac mae'n cynnwys gwarchodaeth uwch i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod amddiffyniad digonol yn cael ei roi i safleoedd dynodedig, cynefinoedd â blaenoriaeth a rhywogaethau a warchodir yn gyfreithiol.

Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017

Mae Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 yn Offeryn Statudol y DU sy'n galluogi dethol, dynodi, cofrestru, a hysbysu safleoedd sydd i'w gwarchod o dan Gyfarwydddeb y Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol ac anifeiliaid a phlanhigion gwyllt. Mae'r rheoliadau wedi'u rhannu'n dair rhan:

- Mae **Rhan 1** yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol a chyffredinol, gan gynnwys dehongliad, awdurdodau perthnasol, a dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Cyfarwyddbau.
- Mae **Rhan 2** yn delio â gwarchodaeth cynefinoedd naturiol a chynefinoedd rhywogaethau, gan gynnwys dethol safleoedd sy'n gymwys i gael eu dynodi fel rhai o bwys Cymunedol, dynodi ardaloedd cadwraeth arbennig, a chytundebau rheoli.
- Mae **Rhan 3** yn ymdrin â gwarchod rhywogaethau, gan gynnwys rhywogaethau anifeiliaid a phlanhigion Ewropeaidd a warchodir, gwarchod anifeiliaid gwyllt a phlanhigion penodol, a gwahardd mathau penodol o ddal neu ladd anifeiliaid gwyllt.

Gwnaed y rheoliadau ar 30 Hydref 2017 a daethant i rym ar 30 Tachwedd 2017. Mae'r newidiadau a wnaed i'r rheoliadau gan Rheoliadau Cadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 yn cynnwys creu rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol, pennu amcanion y rhwydwaith, a disodli swyddogaethau'r UE gan rai'r DU.

Ystyriaethau CDLI: Cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i asesu effaith debygol y CDLI ar safleoedd gwarchodedig, er mwyn sicrhau na fydd y cynllun yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd cynefinoedd neu rywogaethau dynodedig.

Ansawdd Aer: Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Ddiwygiedig Llywodraeth y DU

Fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018.

Mae'r Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol (NAPCP) yn disgrifio sut y gall y DU gyflawni ymrwymadau rhwym mewn cyfraith 2020 a 2030 i leihau allyriadau (ERCs). Mae'r ymrwymadau hyn yn gymwys yn achos 5 llygrydd:

- ocsidau nitrogen
- amonia
- cyfansoddion organig anweddol difethan
- deunydd gronynnol
- sylffwr deuocsid

Tystiolaeth ar gyfer trydydd Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd yn y DU (CCRA3) Crynodeb i Gymru (2022)

Mae'r ddogfen Tystiolaeth ar gyfer trydydd Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd yn y DU (CCRA3) Crynodeb i Gymru yn nodi risgiau a chyfleoedd allweddol mewn perthynas â newid hinsawdd:

1. Effeithiau ar yr amgylchedd naturiol – risgiau i ddŵr, coedwigoedd ac amaeth o ganlyniad i newidiadau yn amrywiaeth a nifer y pla, pathogenau a rhywogaethau goresgynnol a allai effeithio ar gynefinoedd, coedwigoedd ac amaethyddiaeth.
2. Gallai gwendid i'r seilwaith o ganlyniad i lifogydd ac erydu arfordirol effeithio ar ynni, trafnidiaeth, dŵr, TGCh a'r rhwydwaith trafnidiaeth.
3. Byddai cynnydd mewn tymheredd ac achosion o dywydd eithafol a mwy o risg o lifogydd yn effeithio ar iechyd a llesiant.
4. Byddai tywydd eithafol, lefel y môr yn codi, llifogydd ac erydu arfordirol yn effeithio ar fusnesau'r arfordir a threftadaeth ddiwylliannol.
5. Gallai effeithiau rhyngwladol beri risg i argaeledd bwyd, diogelwch, diogeled, cyfraith ryngwladol, llywodraethiant ac iechyd y cyhoedd.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn ystyried newid hinsawdd ac yn cyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol ac ystyried camau lliniaru ac addasu i'r hinsawdd.

Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 Llywodraeth y DU 2009

Nodiadau: Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn rhoi pwerau newydd i helpu i gyflawni'r weledigaeth a geir yn Amcanion Morol Uwch y DU.

Mae'r pwerau newydd a geir yn sgil y Ddeddf hon yn cynnwys:

- Cynllunio morol – System newydd ar gyfer cynllunio morol a fydd yn ymdrin â'r holl brif weithgarwch morol. Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yw'r cynllun morol statudol o dan y Ddeddf hon.
- Trwyddedu Morol – Yng Nghymru cafodd pwerau Trwyddedu Morol eu dirprwyo i Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2011. Mae'r pwerau trwyddedu hyn yn disodli'r trefniadau trwyddedu a arferai ddod o dan: Deddf Bwyd a'r Amgylchedd 1985, Deddf Amddiffyn y Glannau 1949 a Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (echdynnu mwynau a threillio gwely'r môr) (Cymru) 2007.

Mecaneg Cadwraeth Morol – Mae'r Ddeddf hon yn rhoi'r pwerau i greu Parthau Cadwraeth Morol (MCZ) i gynorthwyo i warchod planhigion ac anifeiliaid morol neu nodweddion daearegol/geomorffolegol.

Ystyriaethau CDLI: Rhaid i'r CDLI ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a sicrhau bod datblygiad arfordirol yn gynaliadwy ac yn diogelu'r amgylchedd morol.

Adolygiad Stern ar economeg newid yn yr hinsawdd, Trysorlys EF 30/10/2006

Arfarniad o Gynaliadwyedd **Cynllun Datblygu Lleol 3**

Atodiad A – Adolygiad o Gynlluniau, Polisiâu a Rhaglenni Perthnasol

Mae'r Adolygiad Stern yn mesur risgiau economaidd newid hinsawdd ac yn amcangyfrif y gallai gostio hyd at 20% o CDG byd-eang y flwyddyn oni chymerir camau lliniaru. Mae hyn yn sail i ymrwymiad i ymyrraeth gynnar mewn datgarboneiddio, addasu a gwydnwch.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn mynd i'r afael â chamau lliniaru ac addasu i newid hinsawdd yn ddigonol.

Deddf Rheoli Dŵr a Llifogydd 2010, Llywodraeth y DU

Yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli risg llifogydd, draenio dŵr wyneb a seilwaith dŵr.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r CDLI ystyried capasiti seilwaith dŵr presennol a chyfeirio datblygiad hynod fregus i ffwrdd o ardaloedd sydd mewn risg uchel o lifogydd.

JNCC :Datganiad ar y Cyd ar Wella'r Dull o Ymdrin ag Ardaloedd Gwarchodedig yn y DU 2024

Mewn ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd, mae CNC ynghyd â chyrff cadwraeth natur eraill y DU yn darparu egwyddorion a rennir ar gyfer cryfhau ardaloedd gwarchodedig ar draws y pedair cenedl.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod amddiffyniad digonol yn cael ei roi i safleoedd dynodedig a chynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i sicrhau na fydd y cynllun yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd cynefinoedd neu rywogaethau dynodedig.

Cymru

Cynllun, Polisi neu Raglen
<u>Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)</u> <u>Egwyddorion amgylcheddol, trefniadau llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn (2024)</u>
Mae'r Bil a'r Papur Gwyn hwn yn cyflwyno cynigion i gryfhau'n sylweddol y trefniadau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru, rhoi sylw i newid yn yr hinsawdd a cholledion mewn bioamrywiaeth. Mae'r cynigion yn cynnwys: • Ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru • Sefydlu corff llywodraethu; • Cyflwyno targedau a dyletswyddau statudol ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth yng Nghymru Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd gyda mesurau lliniaru ac addasu i'r hinsawdd a diogelu a gwella seilwaith gwyrdd, gwydnwch amgylcheddol a mesurau carbon isel.
<u>Datganiad Ardal Morol, Cyfoeth Naturiol Cymru (Ar waith)</u>
Mae Datganiad Ardal Morol Cymru'n disgrifio dyfroedd glannau Cymru, sy'n ymestyn am 12 milltir forol, ac mae'n nodi tair thema allweddol ar gyfer yr ardal: 1. Adeiladu cadernid ecosystemau morol – Yr hyn a wyddom am yr amgylchedd morol o amgylch Cymru a sut y gellir adeiladu cadernid ecosystemau 2. Datrysiadau sy'n seiliedig ar natur ac addasu ar yr arfordir – cyfleoedd i wneud addasiadau ar gyfer newid yn yr hinsawdd 3. Manteisio i'r eithaf ar gynllunio morol – sut y gall cynllunio morol helpu i reoli adnoddau naturiol morol yn gynaliadwy Mae'r datganiad yn darparu rhagor o fanylion ar y blaenoriaethau a'r camau gweithredu i adeiladu gwydnwch yr ardal forol a'r manteision ehangach. Ystyriaethau CDLI: Rhaid i'r CDLI ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r Datganiad Ardal Forol a sicrhau bod datblygiad arfordirol yn gynaliadwy ac yn diogelu'r amgylchedd morol.
<u>Deddf Amaeth (Cymru) 2023</u>
Mae'r Ddeddf hon cyfrannu at gyflawni nodau fframwaith amaethyddiaeth yng Nghymru, Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM). Prif amcan y Ddeddf yw sicrhau bod y sector amaethyddol yng Nghymru'n cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn ffordd sy'n gynaliadwy, sy'n ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, sy'n diogelu ac yn cyfoethogi cefn gwlad ac

adnoddau diwylliannol ac sy'n hybu mynediad cyhoeddus iddynt. Hefyd, mae'r Ddeddf yn hyrwyddo ac yn hwyluso defnydd o'r Gymraeg.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r CDLI ddiogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas a chefnogi cynaliadwyedd hirdymor ffermio, arallgyfeirio a chymunedau gwledig.

Cynllun Cymru Gyfan 2021–2025: Gweithio gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net (2022)

Mae'r cynllun yn cynnwys astudiaethau achos a pholisïau a chynigion i leihau allyriadau mewn tai, trafnidiaeth, ynni, defnydd tir a gwasanaethau cyhoeddus i gefnogi'r symudiad i sero net ledled Cymru.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod strategaeth, polisïau a chynigion y cynllun yn ymateb yn briodol i'r argyfwng hinsawdd a'r newid i sero net trwy leihau'r angen i deithio ac annog teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, hyrwyddo datblygiad carbon isel ac adeiladau ynni-ffeithlon, a chefnogi ynni adnewyddadwy lle bo hynny'n briodol yn y dirwedd a seilwaith gwyrdd. Byddai hyn hefyd yn arwain at fanteision iechyd, cydraddoldeb, bioamrywiaeth a thwf economaidd posibl.

Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021-2025)

Mae'r cynllun yn amlinellu sut y bydd Cymru yn cyrraedd ei hail gyllideb garbon ac yn cyfrannu tuag at darged lleihau allyriadau 2030, a sero net erbyn 2050. Nod y cynllun yw lleihau allyriadau cludiant teithwyr gan 22% erbyn 2025 o gymharu â lefelau 2019 a 98% erbyn 2050 trwy leihau'r galw, newid moddol, a mabwysiadu technoleg carbon isel. Mae hefyd yn targedu gostyngiad o 10% mewn milltiroedd car y pen erbyn 2030 wrth gynyddu teithio cynaliadwy trwy dtrafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol i 35% erbyn 2025 a 39% erbyn 2030.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod strategaeth, polisïau a chynigion y cynllun yn ymateb yn briodol i'r argyfwng hinsawdd a'r newid i sero net trwy leihau'r angen i deithio ac annog teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, hyrwyddo datblygiad carbon isel ac adeiladau ynni-ffeithlon, a chefnogi ynni adnewyddadwy lle bo hynny'n briodol yn y dirwedd a seilwaith gwyrdd. Byddai hyn hefyd yn arwain at fanteision iechyd, cydraddoldeb, bioamrywiaeth a thwf economaidd posibl.

Tu Hwnt i Ailgylchu Strategaeth Economi Gylchol 2021

Yn nodi strategaeth ar gyfer cyflawni economi gylchol i gadw adnoddau mewn defnydd cyhyd â phosibl ac osgoi gwastraff trwy reoli adnoddau'n gyfrifol trwy chwe thema graidd: 1. Gyrru Arloesedd wrth ddefnyddio deunyddiau, 2. Cynyddu atal ac aildefnyddio; 3. Adeiladu ar ein record ailgylchu; 4. Buddsoddi mewn seilwaith; 5. Galluogi gweithredu cymunedol a busnes a 6. Alinio liferi'r Llywodraeth. Mae'r nodau yn cynnwys; Defnydd adnoddau un blaned; dod yn ddiwasttraff erbyn 2050; allyriadau sero net; gwneud y mwyaf o'n potensial economaidd a gwneud effeithlonrwydd adnoddau yn rhan o ddiwylliant Cymru.

Ystyriaethau CDLI: Dylai polisïau'r CDLI hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau mewn datblygu a lleihau gwastraff.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth sy'n rhoi gofyniad ar gyrff cyhoeddus i wneud pethau er mwyn llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r

Arfarniad o Gynaliadwyedd **Cynllun Datblygu Lleol 3**

Atodiad A – Adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol

egwyddor datblygu cynaliadwy; i'w gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus adrodd ar weithredu o'r fath; sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gynghori a chynorthwyo gyrff cyhoeddus i wneud pethau'n unol â'r Ddeddf hon; sefydlu byrddau gwasanaeth cyhoeddus mewn ardaloedd awdurdodau lleol; gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r byrddau rheini gynllunio a gweithredu i hybu llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei hardal; ac i ddibenion cysylltiedig.

Prif ddibenion y Ddeddf yw:

- gosod fframwaith y bydd awdurdodau cyhoeddus penodedig yn ei ddilyn i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau (yr egwyddor datblygu cynaliadwy),
- rhoi nodau llesiant ar waith y dylai'r awdurdodau rheini ymdrechu i'w cyflawni i wella llesiant yn awr ac yn y dyfodol,
- nodi sut y bydd yr awdurdodau rhieni'n dangos sut y maent yn gweithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant;
- rhoi Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus a chynlluniau llesiant lleol ar sail statudol ac, wrth wneud hynny, symleiddio'r gofynion cyfredol o ran cynllunio cymunedol integredig,
- sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru i eiriol dros genedlaethau'r dyfodol ac a fydd yn cynghori ac yn cynorthwyo awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Bil.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno 7 nod llesiant i Gymru:

- Cymru lewyrchus.
- Cymru gydnerth.
- Cymru iachach.
- Cymru fwy cyfartal.
- Cymru o gymunedau cydlynus.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Ystyriaethau CDLI: Bydd y nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio yn cael eu hymgorffori ym mhob cam o baratoi'r CDLI.

Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

Yn amlinellu'r weledigaeth hirdymor ar gyfer trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol trwy ddull system-gyfan sy'n canolbwyntio ar atal, integreiddio, a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'n hyrwyddo darparu gwasanaethau'n agosach at adref, lleihau'r ddibyniaeth ar ysbytai, a gwella lles y boblogaeth. Yn ganolog i'r cynllun mae'r egwyddorion gofal iechyd darbodus, arloesi digidol, grymuso'r gweithlu, a gweithio ar y cyd.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r CDLI gefnogi iechyd a lles corfforol a meddyliol drwy ddarparu mynediad at dai da, seilwaith gwyrdd, hyrwyddo teithio llesol, lleoli datblygiad mewn lleoliadau hygyrch i sicrhau mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys canolfannau iechyd, addysg a gwaith, darparu tai priodol ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio a phobl ag anableddau. Bydd y cynllun yn cael ei asesu yn erbyn Fframwaith Asesu'r Fframwaith Cynaliadwyedd Integredig a fydd yn ymgorffori iechyd yn y fframwaith a thrwy Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025

Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025 - Memorandwm Esboniadol

Bydd y Rheoliadau hyn, a ddatblygwyd o dan Ran 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, yn rhoi dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodedig i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd wrth wneud penderfyniadau strategol ynghylch sut maen nhw'n arfer eu swyddogaethau. Disgwylir i'r rheoliadau ddod i rym ar 6 Ebrill 2027.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhewch fod Asesiad Effaith Iechyd yn cael ei wneud i asesu a ystyried effaith y cynllun ar iechyd corfforol a meddyliol a lles ac i wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau.

Strategaeth iechyd meddwl a llesiant meddyliol 2025 i 2035

Yn nodi nod strategol y "Bydd pobl yng Nghymru yn byw mewn gwlad sy'n hyrwyddo, yn cefnogi ac yn eu grymuso i wella eu hiechyd a'u lles meddyliol, ac a fydd yn rhydd o stigma a gwahaniaethu". Mae iechyd meddwl yn cael ei siapio gan fwy na gwasanaethau iechyd - effeithir arno hefyd gan yr amgylcheddau cymdeithasol, economaidd a ffisegol lle mae pobl yn byw, gan gynnwys sut maen nhw'n symud ac yn cael mynediad at nwyddau a gwasanaethau ac yn gallu symud gan ddefnyddio'r system drafndiaeth.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r CDLI gefnogi iechyd a lles corfforol a meddyliol drwy ddarparu mynediad at dai da, seilwaith gwyrdd, hyrwyddo teithio llesol, lleoli datblygiad mewn lleoliadau hygyrch i sicrhau mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys canolfannau iechyd, addysg a gwaith, darparu tai priodol ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio a phobl ag anableddau. Bydd y cynllun yn cael ei asesu yn erbyn Fframwaith Asesu'r Fframwaith Cynaliadwyedd Integredig a fydd yn ymgorffori iechyd yn y fframwaith a thrwy Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Mabwysiadwyd Deddf Cynllunio (Cymru) gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2015, gyda'r nod o foderneiddio a gwella'r system gynllunio i hwyluso darpariaeth cartrefi, swyddi a seilwaith.

Prif negeseuon:

- Atgyfnerthu rolau Llywodraeth Cymru fel stiwardiaid gweithredol y system gynllunio yng Nghymru
- Hybu newid diwylliannol mewn cynllunio i helpu i'w wneud yn fwy positif, a chefnogi datblygu priodol yn fwy effeithiol
- Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Goblygiadau i Gynllunio Cymreig:

- Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd, Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 – canolbwyntio ar faterion cynllunio defnydd tir ar lefel genedlaethol, gan ganfod lleoliadau allweddol ar gyfer datblygu seilwaith a phennu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer cynllunio
- Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) i'w paratoi i fynd i'r afael â materion cynllunio rhanbarthol
- Datblygiadau Lleol – Wedi'u cadw ond bydd angen eu hadolygu i sicrhau eu bod yn gydnaws â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (a'r Cynlluniau Is-ranbarthol pan yn briodol). Cyflwynwyd dyddiadau gorffen ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol.
- Mwy o bwerau i Weinidogion Cymru – mewn rhai amgylchiadau bydd ymgeiswyr yn gallu ymgeisio'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r hierarchaeth o gynlluniau datblygu sydd ar hyn o bryd yn cynnwys Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 ac unrhyw Gynlluniau Datblygu Strategol datblygol ar gyfer De-orllewin Cymru.

Dyfodol Cymru: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)

Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol gan Lywodraeth Cymru, sydd â statws cynllun datblygu. Roedd yn disodli Cynllun Gofodol Cymru ac yn nodi cyfeiriad strategol 20 mlynedd ar gyfer datblygu yng Nghymru. Mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio drwy ddatblygu economi fywiog, datgarboneiddio a chydnerthedd hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd cymunedol. Mae'r cynllun yn arwain buddsoddiadau seilwaith a datblygu a bydd yn cael ei fanylu ymhellach gan Gynlluniau

Datblygu Strategol (CDS) rhanbarthol a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) awdurdodau lleol, y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â Cymru'r Dyfodol.

Mae Cymru'r Dyfodol yn cynnwys strategaeth ofodol genedlaethol ac yn cyflwyno pedwar rhanbarth yng Nghymru: Y Gogledd, y Canolbarth, y De Orllewin a'r De Ddwyrain. Mae'r cynllun yn nodi 'ble bydd Cymru'n tyfu' (Polisi 1) drwy nodi ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol. Ar gyfer pob un o'r rhanbarthau, mae'r cynllun yn tynnu sylw at leoliadau allweddol ar gyfer twf, cyfleoedd ar gyfer seilwaith datblygu ac yn gosod fframwaith ar gyfer cynllunio rhanbarthol a lleol. Dywed Cymru'r Dyfodol: 'Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn endidau cynllunio unigryw sydd â chylch gwaith penodol i adlewyrchu nodweddion unigryw eu hardaloedd...ac mae polisïau Cymru'r Dyfodol yn parchu swyddogaethau Parciau Cenedlaethol o ran eu dibenion statudol...' (tudalen 104).

Mae'r fframwaith polisi yn nodi'r materion allweddol canlynol sydd o bwys cenedlaethol:

- Egwyddorion creu lleoedd strategol (Polisi 2)
- Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol (Polisi 3)
- Cefnogi cymunedau gwledig a'r economi wledig (Polisïau 4 a 5)
- Defnyddio egwyddor 'Canol Trefi yn Gyntaf' i gefnogi canol trefi a dinasoedd fel mannau aml-swyddogaethol (Polisi 6)
- Darparu tai fforddiadwy (Polisi 7). Mae'n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Lleol edrych ar bob cyfle i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a nodi datblygiadau sy'n cael eu harwain gan dai fforddiadwy.
- Mae Llifogydd (Polisi 8) yn cefnogi buddsoddi mewn seilwaith newydd a gwell sy'n hyrwyddo atebion sy'n seiliedig ar natur fel blaenoriaeth.
- Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn a Seilwaith Gwyrdd (Polisi 9) gyda Bryniau Preseli a choetiroedd Gogledd Sir Benfro wedi'u dynodi'n Adnodd Naturiol Cenedlaethol.
- Polisi 10 'Cysylltedd Rhyngwladol' yn cydnabod pwysigrwydd Dyfrffordd a Phorthladdoedd Aberdaugleddau fel ased cenedlaethol mawr a phorth rhyngwladol pwysig ar gyfer cludo nwyddau a theithwyr. Cydnabyddir hefyd bod "cadwyn gyflenwi sgiliau uchel amrywiol wedi datblygu'n lleol i gefnogi'r sector ynni sy'n gynyddol ymgorffori'r sector ynni adnewyddadwy, ac, yn benodol, ynni'r môr" (tudalen 82).
- Mae polisïau trafndiaeth (11 a 12) yn seiliedig ar hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy Cymru sy'n rhoi blaenoriaeth i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ac yn gosod y weledigaeth ar gyfer newid i gerbydau allyriadau isel.
- Mae seilwaith digidol (polisïau 13 a 14) yn cefnogi darparu seilwaith cyfathrebu digidol ac mae angen datblygiadau newydd i ddarparu seilwaith band eang all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit.
- Mae Coedwig Genedlaethol (Polisi 15) yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu coedwig genedlaethol drwy nodi safleoedd a mecanweithiau priodol.

- Mae polisïau ynni adnewyddadwy 16, 17 a 18 yn cynnwys polisïau strategol gofodol a manwl sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer penderfynu ar geisiadau.
- Polisïau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol a Chynlluniau Datblygu Strategol (Polisi 19).
- Mae Polisi 32 'Dyfrffordd ac Ynni Aberdaugleddau' yn dynodi Dyfrffordd Aberdaugleddau fel safle ar gyfer datblygiadau newydd posibl mewn ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan feithrin arloesedd a buddsoddiad.

Ystyriaethau CDLI: Rhaid i'r CDLI gydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol drwy sicrhau bod y strategaeth, y cynigion a'r polisïau'n cydymffurfio â'r strategaeth ofodol ar gyfer De-orllewin Cymru ac yn cefnogi ardaloedd twf rhanbarthol Trefi Porthladd Sir Benfro, nid yn cystadlu gyda nhw. Rhaid i'r CDLI alinio â'r polisïau drwy gefnogi gweithredu ar newid hinsawdd a'r symudiad i sero net, cymhwyso'r egwyddorion creu lleoedd, cefnogi'r dull o roi canol trefi yn gyntaf, diogelu tirweddau a bioamrywiaeth a sicrhau bod tai a gwasanaethau yn cael eu hintegreiddio â buddsoddiad mewn seilwaith.

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021

Daeth Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) i rym ar 28 Chwefror 2022. Mae'r Rheoliadau'n nodi'r gofynion gweithdrefnol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol.

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar gyfer pedwar rhanbarth yng Nghymru. Mae Cydbwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn gorff cyfreithiol ar wahân a gafodd ei gyfansoddi'n ffurfiol ym mis Ionawr 2022. Mae'n cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog.

Ystyriaethau CDLI: Rhaid i'r CDLI gydymffurfio â Chynllun Datblygu Strategol datblygol ac alinio â chynlluniau rhanbarthol eraill sy'n cael eu paratoi gan y CBC.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cyflwyno deddfwriaeth gynllunio newydd sy'n ymdrin â'r pynciau canlynol:

- Rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy
- Newid yn yr Hinsawdd – gan gynnwys targedau allyriadau statudol
- Codi tâl am fagiau untro – rhagor o bwerau i Weinidogion ar faterion yn ymwneud â chodi tâl am fagiau untro.
- Casglu a gwaredu gwastraff – gwelliannau i brosesau rheoli gwastraff, gweithio tuag at lefelau ailgylchu uwch, trefniadau rheoli gwastraff bwyd gwell ac adennill mwy o ynni.
- Pysgodfeydd a physgod cregyn – egluro trefniadau ar drwyddedu a rheoli.

- Pwyllgor llifogydd ac erydu arfordirol a draenio tir – eglurhad ar y cyfreithiau ar drefniadau rheoleiddiol amgylcheddol eraill gan gynnwys rheoli perygl llifogydd.
- Dyletswydd Adran 6 i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn ymateb yn effeithiol i'r argyfwng natur drwy ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad gyflawni budd net i fioamrywiaeth, cefnogi rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol a safleoedd gwarchodedig, ac ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy ar draws polisiau, dyraniadau safle a'r Fframwaith Asesu Cynaliadwyedd Integredig. Bydd y dull gweithredu hwn hefyd yn arwain at fanteision iechyd, cydraddoldeb, hinsawdd ac economaidd posibl ehangach.

Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021

Ym mis Chwefror 2021, gosododd Llywodraeth Cymru reoliadau gerbron y Senedd, sy'n ymrwymo Cymru i dargedau newid hinsawdd llymach erbyn 2050, mewn ymateb i gyngor Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU. Dyma'r ail set o reoliadau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn dilyn rheoliadau 2018, a oedd yn targedu gostyngiad o 80 y cant erbyn 2050, a oedd yn cael ei ystyried yn annigonol. Mae'r prif reoliadau'n cynnwys diwygio targed allyriadau 2050 i sero net, diweddarau targedau interim ar gyfer 2030 a 2040 i ostyngiadau o 63 y cant ac 89 y cant yn y drefn honno, gosod terfynau llymach ar gyfer Cyllideb Garbon 2 (2021-2025), cyflwyno Cyllideb Garbon 3 (2026-2030), a gosod terfyn gwrthbwysu o 0 y cant ar gyfer Cyllideb Garbon 2.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y cynllun yn ymateb yn briodol i'r argyfwng hinsawdd ac yn cyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol gan ystyried camau lliniaru ac addasu i'r hinsawdd a diogelu a gwella'r amgylchedd.

Strategaeth Cymru ar Addasu i'r Hinsawdd (2024)

Mae Strategaeth Cymru ar Addasu i'r Hinsawdd yn amlinellu'r dull cenedlaethol i addasu i effeithiau newid hinsawdd, gan adeiladu gwytnwch, a sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer ei phobl, yr economi a'r amgylchedd. Nod y strategaeth yw darparu fframwaith er mwyn ymdrin ag effeithiau presennol newid hinsawdd, a rhai'r dyfodol yng Nghymru, gan sicrhau bod Cymru'n gallu gwrthsefyll risgiau hinsawdd, ac alinio gyda nodau hinsawdd Cymru, gan gynnwys cyrraedd allyriadau sero-net erbyn 2050.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y cynllun yn ymateb yn briodol i'r argyfwng hinsawdd ac yn cyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol gan ystyried camau lliniaru ac addasu i'r hinsawdd a diogelu a gwella'r amgylchedd.

Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024

Y fframwaith statudol i wella ansawdd aer a rheoli seinweddau ledled Cymru. Mae'r darpariaethau allweddol sy'n berthnasol i AC/AAS yn cynnwys:

Arfarniad o Gynaliadwyedd **Cynllun Datblygu Lleol 3**

Ansawdd Aer

Targedau Cenedlaethol: Rhaid i Weinidogion Cymru osod targedau hirdymor, mesuradwy ar gyfer llygryddion allweddol (e.e. PM2.5, PM10, NO₂, SO₂, CO, amonia, osôn), gyda gorwel o 10 mlynedd o leiaf. [www.legisl... ion.gov.uk]

Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol (RhAALI): Dyletswyddau cadarnach ar awdurdodau lleol i adolygu a gweithredu ar ansawdd aer yn flynyddol, gyda chynlluniau gweithredu yn gofyn am ddyddiadau cydymffurfio rhagamcanol y cytunwyd arnynt gyda Gweinidogion Cymru. [www.llyw.cymru]

Ardaloedd Rheoli Mwg: Mwy o bwerau gorfodi i awdurdodau lleol, gan gynnwys cosbau sifil am doriadau, gan ddisodli sancsiynau troseddol.

Gwrthsegura a Chodi Tâl ar Ddefnyddwyr Ffyrdd: Pwerau newydd i fynd i'r afael â segura llonydd gan gerbydau ac ehangu cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd i fynd i'r afael â manau problemus o ran llygredd.

Seinweddau

Gofyniad y Strategaeth Genedlaethol: Rhaid i Weinidogion Cymru gynhyrchu strategaeth genedlaethol ar gyfer asesu a rheoli seinweddau, gan gydnabod rôl amgylcheddau acwstig o ran iechyd a lles y cyhoedd.

Dyletswyddau Trawsbynciol

Hyrwyddo Teithio Llesol: Mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, hyrwyddo teithio llesol fel modd o leihau llygredd aer.

Ymwybyddiaeth y Cyhoedd: Rhaid i Weinidogion Cymru hyrwyddo ymwybyddiaeth o risgiau llygredd aer a strategaethau lliniaru.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau y diogelir ansawdd aer a seinwedd a hyrwyddo datblygiad sy'n lleihau allyriadau o drafnidiaeth ac yn hyrwyddo teithio llesol, yn lleihau allyriadau o wresogi a ffynonellau eraill ac yn integreiddio seilwaith gwyrdd i wella ansawdd aer ac iechyd a lles pobl. Bydd ansawdd aer a sŵn yn cael eu hintegreiddio yn Fframwaith Asesu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig i asesu effaith y cynllun, gan gynnwys ar yr amgylchedd ac iechyd.

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi mapiau o lwybrau a chyfleusterau cerdded a beicio presennol ac arfaethedig a chyflawni gwelliannau teithio llesol o flwyddyn i flwyddyn. Mae Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 bellach yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer.

Mae'r [Canllawiau Teithio Llesol \(2021\)](#) yn rhoi crynodeb o'r nodau, y prosesau a'r ystyriaethau allweddol yn Neddff Teithio Llesol (Cymru) 2013 i gynorthwyo gyda gweithredu'r ddeddf. Mae'n darparu cyngor technegol manwl ar sut y dylid cynllunio a dylunio seilwaith.

Nod [Cynllun Cyflawni Teithio Llesol 2024 i 2027](#) yw sicrhau mai cerdded a beicio yw'r dewis ar gyfer teithiau byr o ddydd i ddydd, neu fel rhan o daith hirach wedi'u cyfuno â dulliau cynaliadwy eraill. Mae teithio Llesol yn cysylltu'n agos â nodau hinsawdd a natur, gan fod cynyddu teithio Llesol yn helpu i leihau'r ddibyniaeth ar geir ac allyriadau ac yn cefnogi iechyd a lles.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y strategaeth yn cyfeirio datblygiad i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy gyda mynediad at wasanaethau a chyfleusterau trwy ddulliau teithio cynaliadwy. Hyrwyddo'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy i roi blaenoriaeth i fodloni'r galw am deithio trwy: teithio Llesol trwy gerdded a beicio ar draws trefi a phentrefi; cynyddu mynediad at drafndiaeth gyhoeddus a chefnogi seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn mewn lleoliadau priodol. Bydd y mesurau hyn hefyd yn cefnogi iechyd corfforol a meddyliol, yn lleihau anghydraddoldebau ac yn cyfrannu at sero net trwy ddatgarboneiddio teithio.

[Bws Cymru: cysylltu pobl â lleoedd Llywodraeth Cymru 2022,](#)

Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau bysiau ledled Cymru. Mae'n rhagweld rhwydwaith sefydlog, integredig sy'n ddibynadwy, yn fforddiadwy, yn hyblyg, yn hawdd ei ddefnyddio, yn garbon isel, ac yn annog mwy o bobl i ddewis bysiau yn hytrach na cheir. Mae camau gweithredu allweddol yn cynnwys datblygu rhwydweithiau gwledig a chanolfannau cymunedol ar gyfer gwasanaethau Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw a Thrafnidiaeth Gymunedol, gan wella amserlenni a gwybodaeth am fysiau.

[Mae Masnachfreinio Bysiau a'r Map Ffordd i Fasnachfreinio Bysiau \(2025\)](#) yn amlinellu'r dull o fasnachfreinio bysiau, gan ddadlau'r achos dros ddiwygio a nodi cynlluniau ar gyfer y rhwydwaith yn y dyfodol. Y nod yw creu system fysiau fwy dibynadwy, fforddiadwy a hyblyg sy'n hawdd i'w defnyddio. Bydd masnachfreinio bysiau yn cael ei gyflwyno fesul cam gyda De-orllewin Cymru y cyntaf i weithredu'r system yn 2027.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y strategaeth yn cyfeirio datblygiad i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy gyda mynediad at drafndiaeth gyhoeddus.

[Yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru Cynllun Addasu'r Sector Cadw \(2020\)](#)

Mae'r cynllun yn codi ymwybyddiaeth o'r risgiau a'r cyfleoedd a ddaw o ganlyniad i newid hinsawdd ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru, gan bwysleisio'r angen am addasu. Mae'r cynllun yn annog cydweithio ar draws yr holl sectorau i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r bygythiadau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â hinsawdd a thywydd yn newid yn y tymor byr, canolig a hir. Mae rhai tirweddau a safleoedd hanesyddol o dan fygythiad tymereddau cynhesach, lefelau'r môr yn codi, patrymau glaw yn newid ac achosion o dywydd eithafol.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn mynd i'r afael â chamau lliniaru ac addasu o ran newid hinsawdd ac yn gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol.

Deddf Seilwaith (Cymru) (2024)

Mae Deddf Seilwaith (Cymru) yn symleiddio'r broses ar gyfer datblygu prosiectau seilwaith mawr drwy sefydlu un broses caniatáu seilwaith ar gyfer mathau penodol o Brosiectau Seilwaith Arwyddocaol yng Nghymru.

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

Nodiadau: Daeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 i rym yn 2024. Deddf gydgrynhoi yw Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a ddisodlodd: Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953, Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979; Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn cyflwyno'r darpariaethau sy'n diwygio agweddau penodol ar y gyfraith sy'n ymwneud â henebion ac adeiladau rhestredig; sefydlu cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol a rhestr o enwau lleoedd hanesyddol; sefydlu cofnodion yr amgylchedd hanesyddol ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol; sefydlu Panel cynghori ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru, ac ar gyfer dibenion cysylltiedig.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys y darpariaethau canlynol:

- Pwerau i Weinidogion, gweithdrefnau i restru henebion ac yn y blaen.
- Gorfodaeth yn achos henebion – gan gynnwys ei gwneud yn anos i unigolion sy'n difrodi henebion gwarchodedig i ddianc rhag cael eu herlyn drwy honni anwybodaeth am statws neu leoliad heneb.
- Cyflwyno pwerau newydd i atal gwaith heb ei awdurdodi ar safleoedd ac adeiladau hanesyddol.
- Cyflwyno pwerau newydd i awdurdodau lleol i atal adeiladau hanesyddol rhag dirywio e.e. drwy orchmynion cadw a thrwy ffyrdd newydd o adennill costau drwy ymyriadau uniongyrchol.
- Gwneud gwaith cynnal Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol (HER) yn statudol
- Sefydlu cofnod newydd ar gyfer enwau lleoedd hanesyddol.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol. Rhaid i'r amgylchedd hanesyddol alinio â'r fframwaith ehangach o ddatblygu cynaliadwy, addasu i newid hinsawdd a chreu lleoedd.

Polisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru Rhifyn 12 (Chwefror 2024)

Nodiadau: Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) yn cyflwyno polisiâu cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Prif amcan PCC yw sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae PCC yn ei gwneud yn ofynnol i'r system gynllunio gofleidio'r cysyniad

o greu lleoedd er mwyn creu lleoedd cynaliadwy a gwella lles cymunedau. Mae PCC yn nodi'r Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy sy'n nodi amcanion allweddol o dan y pum thema ganlynol; creu a chynnal cymunedau; tyfu ein heconomi mewn ffordd gynaliadwy; gwneud y defnydd gorau o adnoddau; diogelu'r amgylchedd hyd yr eithaf a chyfyngu ar effaith amgylcheddol, a hwyluso amgylcheddau hygrych ac iach. Mae PCC wedi'i drefnu o amgylch pedair thema gyffredinol:

1. Dewisiadau Strategol a Gofodol i sicrhau rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol a hyrwyddo dylunio da a chreu lleoedd sy'n gwarchod yr iaith Gymraeg.
2. Lleoedd Gweithredol a Chymdeithasol, sicrhau bod gwasanaethau'n hygrych, hyrwyddo teithio llesol, cael canolfannau manwerthu bywiog, diogelu cyfleusterau cymunedol ac annog dylunio cynhwysol.
3. Mae Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus yn cefnogi datblygiad economaidd gan gynnwys twristiaeth a'r economi wledig a defnydd tir effeithiol
4. Lleoedd Unigryw a Naturiol i ddiogelu a gwella'r dirwedd, yr amgylchedd hanesyddol ac adeiledig, cyflawni seilwaith gwyrdd a chyflawni budd net i fioamrywiaeth.

Roedd Argraffiad 11 (2021) yn alinio Polisi Cynllunio Cymru â 'Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040' a oedd yn pwysleisio lleoedd cynaliadwy sydd wedi'u hintegreiddio'n dda. Roedd Rhifyn 12 (2024) yn cyflwyno gofynion i awdurdodau cynllunio ystyried materion lleol fel pa mor gyffredin yw ail gartrefi a llety tymor byr, anghenion seilwaith gwyrdd manwl, manteision bioamrywiaeth net gorfodol a sicrhau'r manteision hyn drwy ddull gweithredu fesul cam. Ar ben hynny, mae'n darparu dull polisi cryfach ar gyfer diogelu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a chanllawiau ar goed a choetiroedd, gan hyrwyddo plannu newydd. Mae pwyslais cryfach ar natur, gwydnwch hinsawdd a chreu lleoedd.

Mae'n cael ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol. Rhoddir cyngor gweithdrefnol yng nghylchlythyrau Cynulliad Cenedlaethol Cymru / Y Swyddfa Gymreig. Mae Polisi Cynllunio Cymru, y Nodiadau Cyngor Technegol a'r cylchlythyrau gyda'i gilydd yn ffurfio polisi cynllunio cenedlaethol y dylai awdurdodau cynllunio lleol ei ystyried wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI).

Ystyriaethau CDLI: Rhaid i'r CDLI alinio â'r polisiau a'r egwyddorion yn PCC, gan gynnwys y Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy

Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020)

Mae'r Llawlyfr wedi'i ddiweddarau, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn rhoi arweiniad ar baratoi cynlluniau datblygu, gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r Llawlyfr yn darparu canllawiau a chynghor ar weithdrefnau i awdurdodau cynllunio lleol ar baratoi, monitro ac adolygu cynllun datblygu.

Ystyriaethau CDLI: Bydd y CDLI yn cael ei baratoi yn unol â'r canllawiau.

Newidiadau deddfwriaethol a pholisi ar ail gartrefi a thenantiaethau tymor byr (2022)

Ym mis Hydref 2022, cyflwynodd Llywodraeth Cymru dri dosbarth defnydd newydd drwy ddiwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987. Dyma'r tri defnydd sydd wedi'u cynnwys erbyn hyn:

- Dosbarth defnydd C3 (tai annedd; a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfeydd a feddiannir am fwy na 183 diwrnod mewn blwyddyn galendr).
- Dosbarth defnydd C5 (tai annedd; a ddefnyddir nid fel unig neu brif breswylfa sy'n cwmpasu tŷ annedd ac eithrio fel unig breswylfa neu brif breswylfa ac a feddiannir am 183 diwrnod neu lai mewn blwyddyn galendr h.y. ail gartrefi)
- Dosbarth defnydd C6 (Tenantiaethau cyfnod byr, yn cynnwys defnyddio tŷ annedd ar gyfer gosod am gyfnod byr yn fasnachol heb fod yn hwy na 31 diwrnod ar gyfer pob cyfnod meddiannaeth).

Ar yr un pryd, diwygiodd Llywodraeth Cymru Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 i ganiatáu newidiadau a ganiateir rhwng y dosbarthiadau defnydd newydd - C3, C5 a C6 neu gymysgedd o ddefnyddiau. Gall awdurdod cynllunio lleol dynnu'r hawliau datblygu hyn a ganiateir yn ôl drwy Gyfarwyddyd Erthygl 4, lle mae'n cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn.

Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd wedi cael ei ddiwygio (argraffiad 12), a phan fo'n berthnasol, rhaid ystyried pa mor gyffredin yw ail gartrefi a thenantiaethau tymor byr wrth ystyried y gofynion tai. Dylid archwilio dulliau polisi lleol i gefnogi hyfywedd cymunedau a gallai gynnwys cyflwyno cap neu nenfwd ar nifer yr ail gartrefi neu'r tenantiaethau cyfnod byr (paragraff 4.2.5).

Ystyriaethau CDLI: Bydd tystiolaeth yn cael ei chasglu ar ail gartrefi a gosodiadau byrdymor a'u heffaith gymdeithasol ac economaidd ac a oes angen datblygu polisiâu i gyfyngu ar ddefnyddiau preswyl yn y Parc Cenedlaethol.

Ffermio Cynaliadwy 2026

Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) 2026 yw rhaglen gymorth amaethyddol newydd Cymru, a fydd yn disodli'r Cynllun Taliad Sylfaenol o fis Ionawr 2026. Ei nod craidd yw helpu ffermwyr i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy wrth wella bioamrywiaeth, iechyd pridd, ansawdd dŵr, a gwydnwch hinsawdd. Mae'r cynllun wedi'i strwythuro o amgylch set o Gamau Gweithredu Cyffredinol y mae'n rhaid i bob fferm sy'n cymryd rhan fynd i'r afael â nhw, megis profion pridd, rheolaeth integredig ar blâu, creu cynefinoedd, a gwelliannau lles anifeiliaid. Mae'r camau gweithredu hyn wedi'u cynllunio i fod yn ymarferol, yn fesuradwy ac yn fuddiol i'r amgylchedd a chynhyrchiant fferm.

Bydd ffermwyr yn derbyn Taliad Cyffredinol am gwblhau'r camau hyn, sy'n cynnwys taliad sylfaenol ac elfen gwerth cymdeithasol yn seiliedig ar y nwyddau cyhoeddus a ddarperir. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys Haenau Dewisol a Chydweithredol, gan gynnig cefnogaeth ychwanegol ar gyfer ymdrechion mwy uchelgeisiol neu ymdrechion ar raddfa tirwedd. Yn bwysig, mae'r cynllun wedi'i ddiwygio i fod yn fwy cynhwysol a hyblyg, gydag addasiadau wedi'u gwneud ar sail adborth ffermwyr—megis gofynion plannu coed llai a chanllawiau cliriach ar reoli cynefinoedd. Yn gyffredinol, mae CFfC 2026 yn cynrychioli newid tuag at ymagwedd fwy cyfannol a chynaliadwy at ffermio yng Nghymru.

Nodyn: Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy'n disodli Cynllun y Taliad Sylfaenol fel prif ffynhonnell cymorth y Llywodraeth i ffermwyr yng Nghymru. Bydd ffermwyr yn cael eu gwobrwyo am weithredoedd sy'n ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, ac am gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Mae'r cynllun yn galw am fwy o integreiddio rhwng ffermwyr a'u tirwedd, ac felly bydd ffermwyr yn cael mwy o help i gynnal a gwella, a chyflawni mwy ar gyfer tirweddau gwarchodedig (Parciau Cenedlaethol) ac amgylcheddau hanesyddol.

Ystyriaethau CDLI: Rhaid i'r CDLI ddiogelu ansawdd y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas a chefnogi adferiad natur, gwydnwch hinsawdd ac arallgyfeirio ffermydd.

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019

Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru'n ddogfen bolisi sy'n cyflwyno strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer defnydd cynaliadwy o'i moroedd am yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r cynllun yn cynnwys ardal o tua 12,350 milltir sgwâr (32,000 cilometr sgwâr) o fôr a 1,300 milltir (2,120 cilometr) o arfordir.

Mae'r cynllun yn gosod gweledigaeth ar gyfer cefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol ac amrywiol yn fiolegol ac yn anelu at gydbwysu agweddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol rheolaeth forol. Mae'n disgrifio fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n ystyried anghenion gwahanol randdeiliaid a'r amgylchedd. Mae'r cynllun hefyd yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy mewn diwydiannau morol fel ynni adnewyddadwy, pysgota, a thwristiaeth.

Ystyriaethau CDLI: Rhaid i'r CDLI ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a sicrhau bod datblygiad arfordirol yn gynaliadwy ac yn diogelu'r morlun a'r amgylchedd morol.

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a'n Llesiant (2019)

Mae'r canllaw'n ei gwneud yn ofynnol i reoli adnoddau naturiol mewn modd sy'n amddiffyn a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau a dod â manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach i gyfrannu at iechyd a lles.

Ystyriaethau CDLI: Mae'n ofynnol i'r CDLI ymgorffori rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol trwy gydol y gwaith o baratoi'r cynllun a chyfrannu at wydnwch ecosystemau, addasu i'r hinsawdd, bioamrywiaeth a sicrhau lles cymdeithasol ac economaidd gan gynnwys manteision ar gyfer iechyd a lles.
Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 Adroddiad a gynhyrchwyd gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n cynnwys asesiad o'r gwelliannau y dylai pob un o gyrff cyhoeddus Cymru eu gwneud i gyflawni'r nodau llesiant. Mae'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi bob pum mlynedd. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y themâu canlynol: gweithredu ac effaith; hinsawdd a natur; iechyd a lles; diwylliant a'r Gymraeg; Economi Llesiant; a bwyd. Ystyriaethau CDLI: Rhaid i'r CDLI ymgorffori'r pum ffordd o weithio a'r themâu.
Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (2020) Mae'r ddogfen strategaeth hon yn disgrifio dull rheoli risg sy'n annog mwy o gydnerthedd, atal ac ymwybyddiaeth, fel y gall y cyhoedd a'r sawl sydd â dylanwad ar ddatblygiadau a'r amgylchedd wneud penderfyniadau gwell. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys crynodeb o'r strategaeth sy'n disgrifio sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru yn ystod y 10 mlynedd nesaf, a chryfhau ac egluro rolau a chyfrifoldebau. Ystyriaethau CDLI: Bydd y CDLI yn cyfeirio datblygiad hynod fregus i ffwrdd o ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol.
Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 Nod y rheoliadau hyn yw mynd i'r afael â llygredd amaethyddol yng Nghymru drwy bennu rheolau ar gyfer arferion ffermio penodol, yn benodol pennu safonau ar gyfer gwneud silwair, cynllunio rheoli maethynnau, taenu gwrtaith yn gynaliadwy a storio elifant silwair a storio tail/slyri. Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod polisïau'r CDLI yn mynd i'r afael â heriau sy'n ymwneud â rheoli maethynnau, diogelu cyrsiau dŵr ac atebion sy'n seiliedig ar natur.
Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 – 2025 Nod y strategaeth hon yw tyfu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru drwy ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, twf economaidd teg, cynaliadwyedd amgylcheddol a buddion cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r cynllun yn seiliedig ar bedair prif flaenoriaeth: • Cynnyrch a lleoedd gwyh • Profiadau o ansawdd i ymwelwyr • Brand arloesol i Gymru

- Sector cysylltiedig a bywiog

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn cydbwysio manteision economaidd twristiaeth wrth amddiffyn tirwedd, rhinweddau arbennig a chymunedau'r Parc Cenedlaethol.

Cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer trafndiaeth, 2022 i 2027, Llywodraeth Cymru (2023)

Mae'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafndiaeth 2022 i 2027 yn dangos sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni ar y blaenoriaethau a'r uchelgais a gyflwynwyd yn Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 (WTS). Mae'r cynllun cynhwysfawr hwn yn cwmpasu rhaglenni, prosiectau, a pholisïau newydd a fydd yn ffurfio trafndiaeth ledled Cymru am y pum mlynedd nesaf.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y strategaeth yn cyfeirio datblygiad i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy gyda mynediad at wasanaethau a chyfleusterau trwy ddulliau teithio cynaliadwy. Hyrwyddo'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy i roi blaenoriaeth i fodloni'r galw am deithio trwy: teithio llesol trwy gerdded a beicio ar draws trefi a phentrefi; cynyddu mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a chefnogi seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn mewn lleoliadau priodol. Bydd y mesurau hyn hefyd yn cefnogi iechyd corfforol a meddyliol, yn lleihau anghydraddoldebau ac yn cyfrannu at sero net trwy ddatgarboneiddio teithio.

Strategaeth Bwyd Cymunedol Llywodraeth Cymru 2025

Mae'r strategaeth yn ceisio hyrwyddo cynhyrchu, cyflenwi a bwyta bwyd lleol, iach a chynaliadwy trwy gysylltu cynhyrchwyr a defnyddwyr, cefnogi tyfu a arweinig gan y gymuned, a brwydro yn erbyn tlodi bwyd a salwch sy'n gysylltiedig â diet.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn diogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas ar gyfer cynhyrchu bwyd ac yn cefnogi creu seilwaith gwyrdd ar gyfer tyfu cymunedol a mynediad at fwyd lleol.

Cynllun Aer Glân i Gymru: Aer Iach, Cymru Iach, Llywodraeth Cymru (2020)

Mae'r Cynllun Aer Glân i Gymru: Aer Iach, Cymru Iach yn cyflwyno strategaeth gynhwysfawr i wella ansawdd aer ym mhob rhan o Gymru. Wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth Cymru, nod y cynllun hwn yw lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd pobl, bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol, a'r economi. Mae amcanion allweddol y cynllun yn cynnwys: lleihau allyriadau o drafnidiaeth, diwydiant ac amaethyddiaeth; hyrwyddo teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus i leihau dibyniaeth ar gerbydau preifat; gweithredu parthau aer glân a pharthau allyriadau isel mewn ardaloedd trefol; a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effeithiau llygredd aer ar iechyd ac annog newid mewn ymddygiad.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau y diogelir ansawdd aer a hyrwyddo datblygiad sy'n lleihau allyriadau o drafnidiaeth, gwresogi a ffynonellau eraill ac integreiddio seilwaith gwyrdd i wella ansawdd aer ac iechyd a lles pobl. Bydd ansawdd aer yn cael ei integreiddio yn Fframwaith Asesu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig i asesu effaith y cynllun ar yr amgylchedd ac iechyd.

Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy, Llywodraeth Cymru Mehefin 2006

Nodiadau: Dyma ganllaw ymarferol ar sicrhau tai fforddiadwy. Mae gofyniad ar Gynlluniau Datblygu i bennu targedau ar gyfer darparu tai fforddiadwy yn seiliedig ar yr angen a ganfuwyd yn ardal y cynllun. Mae argaeledd tai fforddiadwy'n fater cynaliadwyedd. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn datgan bod yn rhaid rhoi sylw i unrhyw angen am dai fforddiadwy.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y cynllun yn gosod targed ar gyfer darparu tai fforddiadwy a bod strategaeth, dyraniadau safle a pholisïau'r cynllun yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy i ddiwallu'r angen lleol.

Nodyn Cyngor Technegol 4: Datblygiad Manwerthol a Masnachol, Llywodraeth Cymru 2016

Nodiadau: Cyngor a gofynion ar gyfer mesur canolfannau manwerthu hyfyw a hanfodol. Mae'n cynnwys cyngor ar fonitro, newid defnydd, parcio ceir, ac asesiadau o effaith. Mae mesur a chyflawni canol trefi hanfodol a hyfyw yn galluogi mynediad at wasanaethau lleol o safon uchel. Mae gweithgarwch manwerthu yn ei hanfod yn cael ei arwain gan y farchnad. Mae rôl yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gyfyngedig, a bydd amodau'r farchnad yn effeithio ar strategaethau manwerthwyr.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod strategaeth y cynllun yn cefnogi bywiogrwydd a hyfywedd canolfannau manwerthu a'i bod yn hyblyg i addasu i arferion manwerthu newidiol yn unol â pholisi cenedlaethol a pholisi Cymru'r Dyfodol.

Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur, Llywodraeth Cymru Ionawr 2009

Nodiadau: Mae'n cynnwys cyngor ar sut y dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at warchod a chyfoethogi bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol. Mae'n manylu ar yr egwyddorion cynllunio allweddol ar gyfer cadwraeth natur, cyngor ar baratoi ac adolygu cynlluniau datblygu, rheoli datblygu, a gwarchod safleoedd a rhywogaethau. Mae gwarchod a chyfoethogi bioamrywiaeth yn rhan hanfodol o gynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy. Gall defnyddio a datblygu tir fygwth gwarchodaeth nodweddion naturiol a bywyd gwyllt.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r CDLI ymateb i'r argyfwng natur a sicrhau bod safleoedd a rhywogaethau dynodedig yn cael eu gwarchod. Bydd yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd yn llywio'r gwaith o nodi a diogelu seilwaith gwyrdd a chynefinoedd ac yn mynd i'r afael â goblygiadau newid hinsawdd. Cynhelir Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân.

Nodyn Cyngor Technegol 6: Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Llywodraeth Cymru 2010

Nodiadau: Mae'n cynnwys cyngor ar rôl y system gynllunio i helpu i gyflawni cymunedau gwledig cynaliadwy, gyda chanllawiau penodol yn ymwneud â;

- cymunedau gwledig cynaliadwy
- economïau gwledig cynaliadwy
- tai fforddiadwy gwledig
- anheddau mentrau gwledig
- datblygiadau un blaned
- gwasanaethau gwledig cynaliadwy
- amaethyddiaeth gynaliadwy

Dylai'r Nodyn Cyngor Technegol hwn gael ei ddefnyddio ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy.

Ystyriaethau CDLI: Dylai strategaeth a pholisïau'r CDLI gydbwyso'r gwaith o amddiffyn cefn gwlad wrth gefnogi cynaliadwyedd ardaloedd gwledig trwy dai priodol, datblygu economaidd ac arallgyfeirio'r economi wledig.

Nodyn Cyngor Technegol 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored, Llywodraeth Cymru 1996

Nodiadau: Mae rheoli fwy neu lai pob hysbyseb awyr agored er lles amwynderau a diogelwch y cyhoedd yn bosibl, er bod rhai sydd wedi'u heithrio o reolaeth fanwl, neu sy'n gymwys i gael caniatâd tybiedig. Mae'r rhan fwyaf o'r Parc Cenedlaethol o fewn Ardal Rheolaeth Arbennig ar Hysbysebion. Mae rheoli hysbysebion yn briodol yn bwysig i gymeriad y Parc Cenedlaethol.

Ystyriaethau CDLI: Dylai polisïau'r CDLI lywio lleoliad, dyluniad a graddfa hysbysebion i barchu rhinweddau arbennig a chymeriad lleol, treftadaeth ac ansawdd tirwedd y Parc Cenedlaethol.

Nodyn cyngor technegol (TAN) 10: gorchmynion cadw coed

Yn rhoi cyngor ar y diben a'r weithdrefn ar gyfer creu Gorchmynion Cadw Coed (GCCau) i amddiffyn coed pwysig a sut i gydbwyso amddiffyn coed ag anghenion datblygu.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r CDLI amddiffyn a hyrwyddo rheolaeth gadarnhaol o goed, coetiroedd a gwrychoedd sy'n allweddol i nodweddion lleol, cymeriad a gwerth bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol. Dylai polisïau annog plannu newydd i wella seilwaith gwyrdd, bioamrywiaeth a chymeriad y dirwedd.

Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn, Llywodraeth Cymru 1997

Nodiadau: Mae'n cynnwys cyngor ar sut y gallai'r system gynllunio gael ei defnyddio i leihau effeithiau andwyol sŵn heb osod cyfyngiadau afresymol ar ddatblygiad. Mae'n disgrifio rhai o'r prif ystyriaethau y dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol eu cadw mewn cof wrth lunio polisïau cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a fydd yn cynhyrchu sŵn neu a gaiff eu hamlygu i ffynonellau sŵn presennol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar fersiwn drafft o TAN 11 yn gynnar yn 2023, er mwyn diweddaru'r canllawiau ar sŵn ac ychwanegu cyngor yn ymwneud ag ansawdd yr aer a seinwedd.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r strategaeth sicrhau bod sŵn yn cael ei ystyried wrth leoli a dylunio datblygiad i ddiogelu amwynder ac iechyd a lles lleol.

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio, Llywodraeth Cymru 2016

Mae'r TAN hwn yn canolbwyntio ar ymddangosiad datblygiadau arfaethedig a'u perthynas â'u cyffiniau. Mae'n tybio bod dylunio'n golygu'r berthynas rhwng pob elfen o'r amgylchedd adeiledig a naturiol, gan gynnwys y berthynas rhwng adeiladau a rhwng adeiladau a gofodau. Mae hefyd yn ystyried natur y parth cyhoeddus, y berthynas rhwng gwahanol ardaloedd datblygedig ac adeiladau â chefn gwlad, a phatrymau'r symudiadau sy'n deillio. Trafodir hefyd yr angen i roi sylw i'r materion hyn mewn cynlluniau datblygu ac wrth reoli datblygu, a hefyd mater penodol dylunio ac anabledd. Cyflawni ac annog dylunio da yn y Parc Cenedlaethol.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r Cynllun hyrwyddo dyluniad cynaliadwy a chynhwysol o ansawdd uchel sy'n creu lleoedd lleol unigryw sy'n parchu cymeriad tirwedd adeiledig a naturiol y parc cenedlaethol.

Nodyn Cyngor Technegol 13: Twristiaeth, Llywodraeth Cymru 1997

Nodiadau: Mae'r TAN hwn yn cydnabod er na ellir edrych ar dwristiaeth fel categori defnydd tir unigol neu unigryw, dylai'r materion a godir ganddo gael sylw wrth baratoi neu ddiwygio cynlluniau datblygu ac mewn penderfyniadau rheoli datblygiadau. Mae hefyd yn ystyried problemau sy'n gysylltiedig â chynnal a gwella'r stoc o westai, a darparu safleoedd a chyfleusterau priodol ar gyfer carafanau gwyliau a theithio. Mae hefyd yn trafod gosod a gorfodi amodau meddiannaeth dymhorol a gwyliau ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio. Mae twristiaeth yn rhan bwysig o'r economi yn y Parc Cenedlaethol.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r Cynllun gefnogi twristiaeth gynaliadwy ac adfywiol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at yr economi leol tra'n parchu'r amgylchedd naturiol a'i chymunedau lleol.

Nodyn cyngor technegol (TAN) 15: datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol (2025)

Mae'r NCT hwn yn disodli'r NCT 15 blaenorol, Datblygu a Risg Llifogydd (2004), a NCT 14 Cynllunio Arfordirol. Mae NCT 15 bellach yn seiliedig ar 'Fapiau Llifogydd ar gyfer Cynllunio' sy'n nodi Parthau 1, 2 a 3 a pharthau amddiffynedig ar gyfer pob un o'r categorïau canlynol: afonydd; môr; a dŵr wyneb/cyrsiau dŵr bach. Yr egwyddor allweddol yw cyfyngu ar ddatblygiad newydd ym mharth 3, yn amodol ar eithriadau cyfyngedig yn adran 10, a sicrhau bod y sawl sy'n gwneud penderfyniadau wedi ystyried risg llifogydd ym mhob parth arall. Mae rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer adfywio/aillddatblygu mewn gwahanol barthau os yw hynny'n cefnogi gweithrediad CDLI neu gynlluniau adfywio ac wedi'i gefnogi gan Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol priodol. Ceir aliniad â'r Corff Cymeradwyo SDCau, gyda gofyniad am Ddatganiad Draenio ar gyfer ceisiadau cynllunio y mae angen cymeradwyaeth CCS arnynt.

Ystyriaethau CDLI: Dylai strategaeth, dyraniadau a pholisïau'r cynllun gael eu llywio gan y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio i gyfeirio datblygiad hynod fregus i ffwrdd o ardaloedd risg uchel sy'n dueddol i lifogydd ac erydu arfordirol.

Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon a Hamdden, Llywodraeth Cymru 2009

Nodiadau: Mae'r TAN hwn yn nodi cyfrifoldebau Cyngor Chwaraeon Cymru, Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd o ran chwaraeon a chynllunio hamdden, ac mae'n nodi'n benodol yr angen i awdurdodau cynllunio ystyried y berthynas rhwng defnydd tir er mwyn hamdden, a buddiannau cadwraeth. Dywed nad yw'r llywodraeth yn rhagnodi safonau cenedlaethol ar gyfer darpariaeth hamdden. Mae'n tynnu sylw at werth mannau agored i'r perwyl hwn, boed yn eiddo i'r awdurdod lleol neu beidio. Mae hefyd yn trafod darparu safleoedd a chyfleusterau a phroblemau penodol sy'n gysylltiedig â swm a chyfleusterau â llifoleuadau. Gwarchodaeth a darparu mannau gwyrdd cyhoeddus a phreifat ar gyfer cymeriad, cyfoethogi ac anghenion hamdden.

Ystyriaethau CDLI: Bydd y CDLI yn nodi safleoedd addas ac yn cynnwys polisïau i ddiogelu mannau agored ac ardaloedd hamdden presennol.

Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru 2007

Nodiadau: Mae hwn yn disgrifio sut i integreiddio defnydd tir a chynllunio trafndiaeth. Mae'n egluro sut y dylai effeithiau trafndiaeth gael eu hasesu a'u lliniaru.

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn cynnwys cyngor ar:

- Integreiddio rhwng Cynllunio Defnydd Tir a Thrafnidiaeth.
- Lleoliad Datblygiadau;
- Parcio;
- Dyluniad Datblygiadau;
- Cerdded a Seiclo;
- Trafnidiaeth Gyhoeddus;
- Cynllunio ar gyfer Seilwaith Trafnidiaeth;
- Asesu Effeithiau a Rheoli Gweithredu.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y strategaeth yn cyfeirio datblygiad i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy gyda mynediad at wasanaethau a chyfleusterau trwy ddulliau teithio cynaliadwy. Hyrwyddo'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy i roi blaenoriaeth i fodloni'r galw am deithio trwy: teithio llesol trwy gerdded a beicio ar draws trefi a phentrefi; cynyddu mynediad at drafndiaeth gyhoeddus a chefnogi seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn mewn lleoliadau priodol. Bydd y mesurau hyn hefyd yn cefnogi iechyd corfforol a meddyliol, yn lleihau anghydraddoldebau ac yn cyfrannu at sero net trwy ddatgarboneiddio teithio.

Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg (2017)

Mae NCT 20 yn darparu canllawiau ar y fframwaith deddfwriaethol a pholisi ar gyfer ystyried y Gymraeg a'r fframwaith cynllunio defnydd tir (Rhan A) ac yn rhoi cyngor ar sut i ystyried y Gymraeg fel rhan o'r broses o lunio Cynlluniau Datblygu (Rhan B). Mae'r pwyslais ar sut y gellir ymgorffori'r Gymraeg yn y broses Asesu Integredig (Arfarniad Cynaliadwyedd) i ddatblygu amcan ar gyfer y Gymraeg i asesu gweledigaeth, amcanion, strategaeth, dyraniadau a pholisïau'r cynllun.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r cynllun sicrhau bod y Gymraeg a diwylliant y Parc yn cael eu gwarchod a'u hyrwyddo. Dylai strategaeth, dyraniadau a pholisïau'r Cynllun ddiogelu a gwella'r defnydd o'r Gymraeg, a fydd yn cael ei asesu drwy'r arfarniad cynaliadwyedd. Mae angen Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar wahân hefyd.

Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff, Llywodraeth Cymru 2014, wedi'i ddiweddarau yn 2017

Mae'n cynnwys cyngor ar sut y dylai cynllunio gyfrannu at reoli adnoddau gwastraff yn gynaliadwy, ac fe'i bwriadwyd i hwyluso'r broses o gyflwyno fframwaith cynllunio defnydd tir cynhwysfawr, integredig a chynaliadwy yng Nghymru. Mae rheoli gwastraff yn ganolog i gynaliadwyedd.

Mae TAN 21 yn nodi'r angen i fonitro caniatâd cynllunio a thrwyddedau amgylcheddol ar gyfer cyfleusterau gwastraff er mwyn cadarnhau cyfanswm y capasiti rheoli gwastraff posibl yn y dyfodol. Bydd canlyniadau'r gwaith casglu data hwn yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol ar lefel genedlaethol. Mae diweddariad TAN 21 hefyd yn cyflwyno'r gofyniad am asesiadau cynllunio gwastraff, sy'n rhaid eu cyflwyno â phob cais cynllunio am gyfleusterau rheoli gwastraff (gwaredu, adfer neu ailgylchu).

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r Cynllun gefnogi rheolaeth gynaliadwy o wastraff a'r hierarchaeth gwastraff i flaenoriaethu lleihau, aildefnyddio, ailgylchu ac adfer yn hytrach na gwaredu. Dylai safleoedd addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff gael eu lleoli'n briodol.

(Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23: datblygu economaidd, Llywodraeth Cymru 2014)

Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23 yn cynnwys canllaw ar rôl cynllunio defnydd tir i gynhyrchu cyfoeth, swyddi, ac incwm. Ei nod yw helpu awdurdodau cynllunio lleol i baratoi polisïau Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch datblygu economaidd.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r sylfaen dystiolaeth asesu dyheadau presennol a dyheadau'r dyfodol ar gyfer yr economi a llywio'r strategaeth a pholisïau i gefnogi twf economaidd cynaliadwy, canol trefi bywiog, twristiaeth adfywiol ac arallgyfeirio'r economi wledig.

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: yr amgylchedd hanesyddol, Llywodraeth Cymru 2017

Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24 yn cynnwys canllaw ar sut y mae'r system gynllunio'n ystyried yr amgylchedd hanesyddol yn ystod paratoi cynllun datblygu lleol a gwneud penderfyniadau ar ganiatáu ceisiadau cynllunio ac adeiladau rhestredig. Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddarau NCT 24 i alinio â Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn amddiffyn a gwella'r amgylchedd hanesyddol.

Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregau, Llywodraeth Cymru 2004

Mae'n cynnwys cyngor manwl ar y trefniadau ar gyfer llunio'r polisi ar gyfer echdynnu agregau gan awdurdodau mwynau a'r diwydiant agregau. Echdynnu cynaliadwy sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r effeithiau ar yr amgylchedd ac amwynderau, a chynyddu lefelau ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r cynllun sicrhau bod adnoddau mwynol yn cael eu diogelu a sefydlu fframwaith polisi i sicrhau bod cyflenwad rhanbarthol digonol o gronfeydd mwynol, tra'n parchu na ddylid caniatáu unrhyw waith mwynol neu estyniadau newydd yn y Parc Cenedlaethol.

Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo, Llywodraeth Cymru 2009

Mae'n cynnwys cyngor manwl ar y trefniadau ar gyfer cyflawni'r polisi ar echdynnu glo drwy waith wyneb a thanddaearol gan awdurdodau cynllunio mwynau (MPA) a'r diwydiant glo. Mae'r nodyn cyngor yn canolbwyntio ar warchod 'ardaloedd dynodedig' (gan gynnwys Parciau Cenedlaethol) ac ar leihau effeithiau amgylcheddol echdynnu glo.

Ystyriaethau CDLI: Mae PCC yn nodi safbwynt mwy cyfredol ar ynni, mwynau a glo yn unol â thrawsnewidiad Cymru i economi carbon isel a'r argyfwng hinsawdd. Ni ddylid caniatáu echdynnu glo oni bai bod amgylchiadau eithriadol a rhaid i CDLIau beidio â dyrannu safleoedd ar gyfer echdynnu glo. Dylai'r ffocws ar gyfer cyflenwi ynni fod ar ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel.

Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru, Llywodraeth Cymru, 2021

Mae Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru (WDQR) yn gosod safonau ar gyfer pob cartref fforddiadwy a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hadeiladu i safon uchel. Mae WDQR 2021, yn canolbwyntio ar greu cartrefi a lleoedd hardd ac yn gosod ac yn pennu safonau gofod a safonau amgylcheddol mewn perthynas ag adeiladu a gweithredu.

Ystyriaethau CDLI: Mae angen i bolisiâu'r CDLI alinio â'r gofynion ac ystyried eu heffaith ar hyfywedd a chyflawnadwyedd datblygiad.

Ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i Reoliadau Adeiladu, Rhan L, Llywodraeth Cymru, 2025

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i Ran L (arbed tanwydd ac ynni), Rhan F (Awyru), a Rhan O (Gorboethi) y Rheoliadau Adeiladu. Mae'r ddau opsiwn posibl yn nodi y byddai'n ofynnol i anheddau ac adeiladau annomestig newydd fod yn 'anheddau sero-barod' gyda systemau carbon isel ar gyfer gwres a dŵr poeth na fydd yn gofyn am unrhyw waith pellach i gyflawni allyriadau di-garbon yn y dyfodol wrth i'r grid trydan ddatgarboneiddio. Mae yna gynigion ar gyfer ynni adnewyddadwy ar y safle ar gyfer anheddau newydd ac ar gyfer estyniadau sylweddol.

Ystyriaethau CDLI: Byddai angen i bolisiâu'r CDLI alinio â rheoliadau adeiladu. Byddai angen i'r CDLI ystyried sut y byddai newidiadau i reoliadau adeiladu'n effeithio ar hyfywedd a chyflawnadwyedd datblygiad.

Cynllun Sŵn a Seinwedd i Gymru 2023-2028 Llywodraeth Cymru

Strategaeth genedlaethol Cymru ar gyfer seinwedd sy'n rhoi sylw i bob math o synau. Mae'n cydnabod bod synau digroeso neu niweidiol yn effeithio ar iechyd a llesiant mewn nifer o ffyrdd, a bod hynny'n gallu deillio o ffynonellau domestig, masnachol a thrafnidiaeth. Mae'r cynllun wedi'i ategu gan Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) sy'n darparu sail statudol ar gyfer polisi seinwedd.

Mae'r Cynllun Sŵn a Seinwedd yn cynnwys yn ystyried pob math o sain a gludir yn yr aer::

- Canllawiau ar effeithiau gweithio o bell, pypiau gwres ffynhonnell aer, tân gwyllt a thraffig a newidiadau mewn terfynau cyflymder ar yr amgylchedd sain
- Uchelgais Cymru ar seinweddau priodol sy'n addas ar gyfer y cyd-destun
- Ymgorffori'r pum ffordd o weithio i gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cydgysylltu camau gweithredu ar sŵn ac ansawdd aer a pholisïau amgylcheddol ac iechyd ehangach.
- Mae'r Cynllun yn cydnabod bod seinweddau'n rhan annatod o brofiad pobl o dirweddau gwarchodedig ac y gall sain/tawelwch fod yn rhinwedd arbennig o dirweddau gwarchodedig.

Ystyriaethau CDLI: Nodir seinweddau a llonyddwch fel un o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Dylai'r CDLI leihau effaith datblygiad ar seinweddau a llonyddwch. Bydd sŵn yn cael ei integreiddio yn Fframwaith Asesu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig i asesu effaith y cynllun, gan gynnwys ar yr amgylchedd ac iechyd.

Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi Papur Gwyn ar Dai Digonol a Rhenti Teg, Llywodraeth Cymru, 2024

Yn nodi cynigion ar gyfer digonolrwydd a fforddiadwyedd tai, rheoleiddio'r sector rhent preifat a strategaeth dai hirdymor i Gymru.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod strategaeth a pholisïau'r cynllun yn mynd i'r afael â:

- fforddiadwyedd trwy gymysgedd o ddeiliadaethau a maint mewn lleoliadau hygyrch
- cartrefi o ansawdd da gyda safonau dylunio uchel

hygyrchedd drwy ystyried darpariaethau ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio, gan gynnwys Safon Cartrefi Gydol Oes a pholisïau i gefnogi a diogelu'r cymunedau Cymraeg eu hiaith i sicrhau bod tai yn diwallu anghenion y gymuned

Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru), Llywodraeth Cymru, 2025

Mae'r Bil yn adeiladu ar y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru (2023) ac yn canolbwyntio ar ddiwygio cyfraith a dyletswyddau digartrefedd ar draws gwasanaethau cyhoeddus i atal, lleihau a rhoi diwedd ar ddigartrefedd.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn cefnogi'r ddarpariaeth o ystod o dai addas ar gyfer anghenion y cymunedau lleol.

Ail gartrefi: datblygu polisïau newydd yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, 2021

Adroddiad gan Dr Seimon Brooks ar ail gartrefi sy'n gwneud 12 o argymhellion polisi sy'n anelu at fynd i'r afael â'r argyfwng ail gartrefi a'i effaith ar gymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae'r argymhellion yn cynnwys sefydlu dosbarth newydd ar gyfer ail gartrefi, gan godi premïymau treth gyngor ar ail gartrefi. Mae'r adroddiad yn pwysleisio bod amrywiad rhanbarthol a lleol sylweddol mewn ail gartrefi.

Ystyriaethau CDLI: Bydd tystiolaeth yn cael ei chasglu ar ail gartrefi a gosodiadau byrdymor a'u heffaith gymdeithasol ac economaidd ac a oes angen datblygu polisïau i gyfyngu ar ddefnyddiau preswyl yn y Parc Cenedlaethol.

Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Mawrth 2021)

Ar ôl 31 Mawrth 2021, mae ystod o gyrff yn y sector cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010. Nod y ddyletswydd yw cefnogi aelodau mwyaf agored i niwed cymdeithas, drwy fynnu bod gan lunwyr penderfyniadau strategol drywydd archwilio clir i ddangos eu bod yn ystyried sut gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach, Llywodraeth Cymru, 2021

Mae'r genhadaeth economaidd yn pwysleisio pwysigrwydd busnesau bach a chanolig a buddsoddi mewn datblygu sgiliau i wella gwydnwch economaidd. Mae'r genhadaeth yn canolbwyntio ar greu economi fwy ffyniannus o fewn terfynau amgylcheddol, adeiladu economi wyrddach i wireddu cyfleoedd economaidd sero net a sicrhau economi fwy cyfartal sydd o fudd i bob cymuned ac yn lleihau anghydraddoldebau.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn cyfeirio twf i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy i sicrhau bod tai, cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau yn cael eu darparu mewn lleoliadau hygyrch i ddarparu cyfleoedd cynhwysol.

Cymru'n arloesi: creu cymru gryfach, decach, a gwyrddach

Gweledigaeth y strategaeth yw 'creu a meithrin diwylliant arloesi bywiog i greu Cymru gryfach, decach a gwyrddach'. Mae'r strategaeth wedi'i grwpio yn bedair cenhadaeth: 1. Addysg, 2. Economi, 3. Iechyd a Lles 4. Hinsawdd a Natur.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r CDLI sicrhau mynediad at wasanaethau, cyflogaeth a thrafnidiaeth gynaliadwy i bawb i hyrwyddo tegwch a chynhwysiant, cefnogi defnydd cynaliadwy o adnoddau, annog deunyddiau carbon isel a chefnogi'r trawsnewidiad i economi wyrddach, a thrwy hynny fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd.

Cydweithio er budd manwerthu: cynllun gweithredu fforwm manwerthu Cymru 2023

Yn cydnabod yr heriau i ganol trefi gyda'r newid mewn ymddygiad defnyddwyr a phwysau siopa ar-lein a chostau. Mae'r cynllun yn nodi tri philer a cham gweithredu allweddol: pobl, lleoedd i gyflawni polisi canol trefi yn gyntaf, a gwydnwch.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn cefnogi bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi a'i fod yn hyblyg i addasu i arferion manwerthu newidiol yn unol â pholisi cenedlaethol a pholisi Cymru'r Dyfodol.

Datganiad Sefyllfa Canol Trefi, Llywodraeth Cymru, 2023

Yn amlinellu'r heriau sy'n wynebu canol trefi ac yn nodi'r polisi Canol Trefi yn Gyntaf ar gyfer blaenoriaethu canol trefi fel lleoliadau ar gyfer buddsoddiad manwerthu, hamdden, iechyd, addysg a sector cyhoeddus ochr yn ochr â thai.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn cefnogi bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi a'i fod yn hyblyg i addasu i arferion manwerthu newidiol yn unol â pholisi cenedlaethol a pholisi Cymru'r Dyfodol.

Strategaeth pwysau iach (Pwysau iach Cymru iach), Llywodraeth Cymru

Y strategaeth i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru gyda phedair thema: Amgylcheddau iach, Lleoliadau iach, Arweinyddiaeth a Galluogi Newid a Phobl iach. Mae'r cynllun yn hyrwyddo teithio llesol, hyrwyddo mannau gwyrdd a hawliau tramwy lleol yn well a chyfleoedd i'w defnyddio at ddibenion hamdden, mwy o werthfawrogiad o Barciau Cenedlaethol a'u cyfraniad at iechyd ac ansawdd bywyd eu trigolion neu ymwelwyr, a darparu cyfleusterau chwarae o ansawdd uchel wedi'u targedu at ardaloedd o amddifadedd.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r CDLI gefnogi iechyd a lles corfforol a meddyliol drwy ddarparu mynediad at dai da, seilwaith gwyrdd, hyrwyddo teithio llesol, lleoli datblygiad mewn lleoliadau hygyrch i sicrhau mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys canolfannau iechyd, addysg a gwaith, darparu tai priodol ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio a phobl ag anableddau. Bydd y cynllun yn cael ei asesu yn erbyn Fframwaith Asesu'r Fframwaith Cynaliadwyedd Integredig a fydd yn ymgorffori iechyd yn y fframwaith a thrwy Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio (2021)

Yng Nghymru, mae amcanestyniadau'n dangos y bydd 1 o bob 4 o'r boblogaeth dros 65 oed mewn 20 mlynedd (erbyn 2038). Amcanestynnir y bydd y boblogaeth dros 75 oed yng Nghymru hefyd yn cynyddu o 9.3% o'r boblogaeth yn 2018 i 13.7% yn 2038. Mae nifer cynyddol o bobl yn byw ar eu pennau eu hunain a nifer cynyddol o bobl ar y gofrestr dementia. Mae nifer y gofalwyr di-dâl yng Nghymru hefyd yn cynyddu. Mae'r strategaeth yn nodi bod "gwahaniaeth o tua 18 mlynedd mewn disgwyliad oes iach ar hyn o bryd rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig".

Mae'r strategaeth yn nodi tair thema drawsbynciol:

1. Creu Cymru oed-gyfeillgar 2. Blaenoriaethu atal trwy adeiladu cymunedau, cartrefi, systemau trafnidiaeth a mannau

Arfarniad o Gynaliadwyedd **Cynllun Datblygu Lleol 3**

Atodiad A – Adolygiad o Gynlluniau, Polisiâu a Rhaglenni Perthnasol

awyr agored sy'n galluogi pobl i heneiddio'n dda.

3. Dull sy'n seiliedig ar hawliau i sicrhau nad yw pobl hŷn yn profi gwahaniaethu oherwydd oedran neu nodweddion gwarchodedig eraill fel anabledd, hil neu gyfeiriadedd rhywiol. Dylai gwasanaethau Cymraeg fod ar gael yn hawdd. Mae'r strategaeth yn nodi pedwar nod:

- Gwella llesiant - atal salwch a chefnogi pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain a galluogi pobl i fyw'n annibynnol cyhyd â phosibl.
- Gwella gwasanaethau ac amgylcheddau lleol drwy sicrhau bod yr amgylchedd naturiol ac adeiledig yn ddiogel ac yn oed-gyfeillgar. Dylai tai fod o safon dderbyniol ac mae modelau tai newydd yn cefnogi pobl i heneiddio'n dda, a fydd yn cynnwys tai gwarchod cyfoes a thai gofal ychwanegol. Sicrhau bod mannau agored ac adeiladau yn ddiogel a hygyrch i bobl hŷn, ac adfywio canol trefi, sef yr ardaloedd mwyaf hygyrch mewn trefi, i ddarparu cyswllt wyneb yn wyneb mewn siopau a chyfleusterau.
- Adeiladu a chynnal gallu pobl
- Mynd i'r afael â thlodi sy'n gysylltiedig ag oedran

Ystyriaethau CDLI: Dylai strategaeth y cynllun gyfeirio twf i leoliadau cynaliadwy i sicrhau y gall poblogaeth sy'n heneiddio gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, gan gynnwys cyfleusterau iechyd, cymunedol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Dylai'r ddarpariaeth o dai newydd fod yn hygyrch ac addasadwy ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio.

Strategaeth gwres i Gymru, Llywodraeth Cymru, 2024

Yn gosod y llwybr at wres sero net trwy ddatgarboneiddio tai a busnesau erbyn 2030 ac yn nodi manteision ar gyfer cydraddoldeb a fforddiadwyedd yn ogystal â'r amgylchedd. Yn pwysleisio pympiâu gwres fel y prif ateb ar gyfer gwres domestig.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod strategaeth, polisïau a chynigion y cynllun yn ymateb yn briodol i'r argyfwng hinsawdd a'r newid i sero net trwy leihau'r angen i deithio ac annog teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, hyrwyddo datblygiad carbon isel ac adeiladau ynni-ffeithlon, a chefnogi ynni adnewyddadwy lle bo hynny'n briodol yn y dirwedd a seilwaith gwyrdd. Byddai hyn hefyd yn arwain at fanteision iechyd, cydraddoldeb, bioamrywiaeth a thwf economaidd posibl.

(Strategaeth Ddŵr Cymru, Llywodraeth Cymru 2015)

Crynodeb: Mae Strategaeth Ddŵr Cymru'n disgrifio safbwynt polisi tymor hir (20 mlynedd) Llywodraeth Cymru i wella rheolaeth adnoddau ddŵr yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn ymdrin â dyfroedd aberol ac arfordirol yn ogystal â ddŵr croyw mewndirol, ac mae wedi'i rhannu'n 6 phrif maes pwnc:

- **Dŵr ar gyfer natur, pobl a busnes** – rheoli adnoddau ddŵr i ddiwallu anghenion, gwella/cynnal ansawdd ddŵr a darparu cyfleoedd ar gyfer "twf gwyrdd".

- **Gwella sut yr ydym yn cynllunio ac yn rheoli ein gwasanaethau dŵr** – mae'n disgrifio sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y seilwaith dŵr yn gynaliadwy.
- **Darparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid** – Sicrhau gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth fforddiadwy a dibynadwy.
- **Diogelu a gwella ansawdd dŵr yfed** – Sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfarwydddeb dŵr yfed a delio'n effeithiol â phroblemau ansawdd.
- **Systemau carthffosiaeth a draenio ar gyfer yr 21^{ain} ganrif** – mae'n disgrifio dull Llywodraeth Cymru o reoli carthffosiaeth a dŵr wyneb yn integredig.
- **Cynorthwyo i gyflawni** – Mae'n nodi sut y caiff y canlyniadau allweddol eu cyflawni.

Pwyntiau nodedig sydd wedi'u cynnwys:

- Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd arfordir Cymru i'r economi a rôl ansawdd dŵr mewn hyrwyddo "twf glas".
- Taliadau am wasanaethau ecosystem sy'n helpu â rheolaeth dŵr
- Cymorth deddfwriaethol ar gyfer systemau cynaliadwy a charthffosiaeth

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod strategaeth a fframwaith polisi'r CDLI yn cefnogi'r strategaeth hon trwy ddiogelu ansawdd a chyflenwad dŵr, gofyn am SDCau, cyfeirio datblygiadau i ffwrdd o ardaloedd o risg llifogydd uchel, cefnogi camau lliniaru ac addasu i'r hinsawdd.

Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol 2024, Dwr Cymru

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd Dŵr Cymru yn rheoli'r cyflenwad a'r galw am ddŵr dros y 25 mlynedd nesaf, gan gynnwys gwydnwch hinsawdd, lleihau gollyngiadau, a thynnu dŵr yn gynaliadwy. Mae'n cynnwys mesurau sy'n benodol i Sir Benfro i fynd i'r afael â risg sychder a diogelu ecolegol.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod polisiau'r CDLI yn cefnogi defnydd cynaliadwy o ddŵr ac yn alinio â mesurau tynnu dŵr a gwydnwch yn y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (CRhAD).

Llwybr Newydd: strategaeth drafndiaeth Cymru 2021

Nodiadau: Mae Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021 yn ddogfen bolisi a strategaeth sy'n cyflwyno gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol trafnidiaeth yng Nghymru i fod yn hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon.. Nod y strategaeth yw annog pobl i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy, gyda tharged o 45% o siwrneiau drwy ddulliau cynaliadwy ledled Cymru erbyn 2045. Mae'r ddogfen yn nodi uchelgais y llywodraeth am yr 20 mlynedd nesaf a'i blaenoriaethau am y 5 mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth yn nodi tair blaenoriaeth:

1. Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio
2. Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn rhwydd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon
3. Annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu mwy na £210 miliwn ledled Cymru yn 2021/22 i helpu i gyflawni'r ymrwymadau yn Llwybr Newydd. Dyrannwyd mwy na £115 miliwn i gynghorau i'w wario ar brosiectau trafnidiaeth a fydd yn helpu i gyflawni'r ymrwymadau yn y strategaeth. Mae'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022-2027 yn nodi'r rhaglenni a'r prosiectau penodol.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y strategaeth yn cyfeirio datblygiad i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy gyda mynediad at wasanaethau a chyfleusterau trwy ddulliau teithio cynaliadwy. Hyrwyddo'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy i roi blaenoriaeth i fodloni'r galw am deithio trwy: teithio llesol trwy gerdded a beicio ar draws trefi a phentrefi; cynyddu mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a chefnogi seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn mewn lleoliadau priodol. Bydd y mesurau hyn hefyd yn cefnogi iechyd corfforol a meddyliol, yn lleihau anghydraddoldebau ac yn cyfrannu at sero net trwy ddatgarboneiddio teithio.

Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Strategaeth Wastraff i Gymru, Llywodraeth Cymru 2010

Nodiadau: Mae'r strategaeth hon yn cyflawni fframwaith tymor hir i gyflawni dyfodol diwastraff yng Nghymru erbyn 2050, gyda nod trawsbynciol i weld gostyngiad o 1.5% o flwyddyn i flwyddyn mewn faint o wastraff a gynhyrchir gan bob sector.

Ystyriaethau CDLI: Dylai polisïau alluogi datblygiadau sy'n cyfrannu at gyflawni'r targedau a bennwyd yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff.

Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, CADW a CCGC

Nodiadau: Nodir mannau o ddiddordeb hanesyddol sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol a'r nodweddion o bwys. Mae synergeddau allweddol rhwng rheolaeth APCAP o adnoddau archeolegol a hanesyddol, ond hefyd cysylltiadau hanfodol â pholisïau rheoli eraill.

Ystyriaethau CDLI: Cyfrannu at Reoli mannau cadwraeth a nodweddion a enwir yn y gofrestr.

[Rhestr Adran 42: Cynefinoedd a rhywogaethau pwysig iawn ar gyfer cadwraeth yng Nghymru, CCGC/ Llywodraeth Cymru 2007](#)

Coetiroedd i Gymru, Llywodraeth Cymru

Gweledigaeth 50 mlynedd i reoli ac ehangu coetiroedd a choed Cymru yn gynaliadwy. Mae'r pedair thema allweddol yn canolbwyntio ar:

1. Ymateb i newid hinsawdd drwy ehangu coetir i amsugno carbon a lleihau risg llifogydd a chefnogi'r defnydd cynaliadwy o bren
2. Coetiroedd i bobl i wella hamdden, iechyd, addysg a stiwardiaeth
3. Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig i gefnogi diwydiannau sy'n seiliedig ar goetir a chryfhau cadwyni cyflenwi
4. Ansawdd amgylcheddol i wella bioamrywiaeth, gwarchod cynefinoedd a hyrwyddo rhywogaethau brodorol.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod yr asesiad seilwaith gwyrdd yn ystyried cyfleoedd i reoli ac ehangu coetiroedd a choed i gyflawni ystod o fanteision o ran yr amgylchedd, iechyd, addysg, yr economi a'r ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd.

Cymraeg 2050 Strategaeth y Gymraeg (Llywodraeth Cymru) 2017

Dull gweithredu hirdymor Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys dau brif darged:

- nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050
- canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10% (yn 2013 i 2015) i 20% erbyn 2050.

Ystyriaethau CDLI: Bydd sylfaen dystiolaeth y CDLI yn nodi Ardaloedd sy'n Sensitif o ran y Gymraeg lle mae iaith yn sensitif neu'n bwysig. Bydd y strategaeth a'r polisïau yn sensitif i anghenion cymunedau Cymraeg eu hiaith, yn enwedig o ran tai priodol, seilwaith cymunedol a chyfleoedd cyflogaeth. Bydd effeithiau tebygol y CDLI ar y Gymraeg yn cael eu hasesu drwy'r arfarniad cynaliadwyedd a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu ragor o safonau ymddygiad wrth gyflenwi eu gwasanaethau drwy'r Gymraeg, gan gynnwys meysydd fel llunio polisïau, gweithgarwch gweithredol y sefydliad a hyrwyddo'r Gymraeg.

Roedd Adran 26 o'r Mesur yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu safonau o'r fath, ac mae'r rhain wedi'u cyflwyno o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yn unig i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol a Gweinidogion Cymru. Ar ôl eu cyhoeddi, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg, o dan Adran 44 o'r Mesur, Hysbysiad Cydymffurfio ar 30 Medi 2015 i bob sefydliad perthnasol, sy'n nodi pa safonau y dylent gydymffurfio â hwy.

O ran llunio polisïau mae'r Hysbysiad cydymffurfio'n rhoi gofyniad ar yr Awdurdod i ystyried sut y gellid llunio polisi newydd (neu sut y gellid newid polisi presennol) fel y byddai'r penderfyniad polisi naill ai:

- yn cael effaith bositif, neu effaith fwy positif, neu
- na fyddai'n cael effaith andwyol, neu a fyddai'n cael effaith llai andwyol, ar y Gymraeg. Dylai'r penderfyniad polisi hefyd sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ystyriaethau CDLI: Bydd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei gynnal i asesu effaith y polisïau ar y Gymraeg.

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) Cymru 2020

Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) Cymru yn asesu cyflwr adnoddau naturiol Cymru a sut mae'r wlad yn eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy. Mae hefyd yn arwain camau gweithredu a pholisïau'r dyfodol tuag at gydnerthedd natur a chynaliadwyedd.

Mae'r adroddiad yn gwerthuso sut mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy yng Nghymru ac yn nodi'r angen am ddull gweithredu rhagweithiol i sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n dod yn fwy cadarn ac yn rhoi cyfle i roi amrywiaeth eang o fanteision ar waith i wella iechyd a chefnogi ffyniant, gan gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r adroddiad yn nodi'r pwysau sydd yna ar adnoddau naturiol, gan gynnwys newid hinsawdd a thwf y boblogaeth, yn ogystal ag atebion integredig. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at gyfraniadau sylweddol adnoddau naturiol i'r economi, gan gynnwys amaethyddiaeth, ansawdd dŵr, coed a choedwigaeth. Mae'r adroddiad yn rhoi sylw i heriau fel sicrhau ynni carbon isel, creu swyddi, mynd i'r afael â thlodi a rheoli llifogydd a sychder ac yn nodi bod angen rheoli adnoddau naturiol yn well er mwyn mynd i'r afael â'r heriau.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod strategaeth a pholisïau'r cynllun ar yr amgylchedd naturiol a'i adnoddau, gan gynnwys dŵr a phridd, yn mynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd ac yn nodi a chyflawni manteision ehangach ar gyfer iechyd, cydraddoldeb a ffyniant.

Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Cymru

Mae Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Cymru yn asesiad gan arbenigwyr, wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru, i gyflymu'r broses o adfer natur ar y môr ac ar y tir. Mae'r archwiliad dwfn yn canolbwyntio ar nodi strategaethau i warchod o leiaf 30% o'r tir a 30% o'r môr erbyn 2030. Mae'r argymhellion yn cynnwys treblu targedau adfer mawndiroedd a rhagor o gamau gweithredu i adfer bywyd gwyllt a phlanhigion Cymru.

Ystyriaethau CDLI: Dylai strategaeth a pholisïau'r cynllun ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd a'r targed 30x30 trwy ddiogelu seilwaith gwyrdd a glas i gyfrannu at amgylchedd naturiol rhyng-gysylltiedig a gwydn.

Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosfforws, Cyfoeth Naturiol Cymru (2023)

Ym mis Ionawr 2021, cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru dargedau llymch ar gyfer llygredd ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol. Cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ganllawiau i Awdurdodau Cynllunio ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio, gan nodi na ddylai datblygiadau newydd gynyddu lefelau ffosffad mewn afonydd. Yn Sir Benfro, canfuwyd bod dalgylchoedd afonydd Teifi a Dwyrain a Gorllewin Cleddau yn methu â chyrraedd y targedau ansawdd dŵr diwygiedig ar gyfer ffosfforws. Ym mis Ionawr 2024, diweddarwyd y canllawiau i gynnwys asesu priodoleddau ansawdd dŵr eraill yn erbyn targedau mewn afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig gan gynnwys asesu faint o amonia sy'n cael ei ollwng i afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig.

Cafodd System Gwybodaeth Ddaearyddol Dosrannu Ffynhonnell (SAGIS) ei gweithredu a chofnododd y canlyniadau ar gyfer Afon Cleddau Wen fod 65% o'r llwyth ffynhonnell orthoffosffad yn deillio o ddefnydd tir gwledig o gymharu ag 84% ar gyfer Afon Cleddau Ddu a 30% ar gyfer Afon Teifi.

Defnyddir Cyfrifiannell Cyllideb Maetholion Cymru i gyfrifo gofynion lliniaru ffosfforws a nitrogen ar gyfer datblygu o fewn y dalgylch ar gyfer afonydd sy'n ACA.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y cynllun yn cyfeirio datblygiadau yn y dyfodol i ffwrdd o'r ACAau a'r cyrff dŵr yr effeithir arnynt neu y gellir dangos niwtraliaeth maethynnau trwy gamau lliniaru addas. Bydd swyddogion yn gweithio gyda Dŵr Cymru i sicrhau bod gan waith trin dŵr gwastraff gapasiti digonol ar gyfer datblygiadau'r dyfodol.

Cyngor i Awdurdodau Cynllunio ar gyfer Ceisiadau Cynllunio sy'n Effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n Sensitif i Faethynnau, Cyfoeth Naturiol Cymru, 2025

Cyhoeddodd CNC asesiadau cyflwr a phecynnau cyngor cadwraeth ar gyfer ACAau ac AGAau Morol yng Nghymru. Yn Sir Benfro mae'r safleoedd perthnasol yn cynnwys ACA Morol Sir Benfro, ACA Bae Ceredigion ac ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. Nodwyd statws cadwraeth anffafriol mewn perthynas â llawer o'r nodweddion y mae'r safleoedd

wedi'u dynodi ar eu cyfer. Mae corff dŵr Aberdaugleddau Fewnol o fewn ACA Morol Sir Benfro yn methu mewn perthynas â dangosyddion cyfoethogi nitrogen cemegol (Nitrogen Anorganig Tawdd (NAT)) a biolegol (ffytoplancton a macro-algae oportiwnistaidd). Mae'n ofynnol i unrhyw ddatblygiad a fyddai'n arwain at gynnydd mewn gollyngiadau nitrogen yn uniongyrchol i Ddyfrffordd Aberdaugleddau Fewnol neu'n draenio i'r dalgylch sy'n arwain at Ddyfrffordd Aberdaugleddau Fewnol ddangos niwtraliaeth maethynnau ar gyfer nitrogen.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y strategaeth, y polisiau a'r dyraniadau safle yn cyfeirio datblygiadau yn y dyfodol i ffwrdd o'r ACAau a'r cyrff dŵr yr effeithir arnynt. Bydd swyddogion yn gweithio gyda Dŵr Cymru i sicrhau bod gan waith trin dŵr gwastraff gapasiti digonol ar gyfer datblygiadau'r dyfodol.

Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (NRW)

Cynllun pum mlynedd i adfer mawndiroedd Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd. Y blaenoriaethau yw: erydiad mawndir, draenio mawndir, rheoli mawndiroedd yr ucheldir yn gynaliadwy, rheoli mawndiroedd yr iseldir yn gynaliadwy, adfer mawndiroedd wedi'u coedwigo ac adfer mawndiroedd sydd â'r allyriadau carbon mwyaf yn raddol.

Mae Porth Data Mawndiroedd Cymru yn darparu gwybodaeth am leoliadau mawndiroedd, cynefinoedd a gynhelir, amcangyfrifon storio carbon ac allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r CDLI amddiffyn mawndiroedd presennol rhag difrod ac annog arferion defnydd tir sy'n cynnal eu gwydnwch hirdymor i gyfrannu at storio carbon, bioamrywiaeth a rheoli dŵr.

Gwerthfawr a Gwydn: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2018

Yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru. Dyma'r nodau allweddol:

1. Lleoedd Gwerthfawr:

- Ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol y tu hwnt i randdeiliaid traddodiadol.
- Meithrin ymdeimlad o berchnogaeth a chysylltiad â'r tirweddau cenedlaethol hyn.

2. Amgylcheddau Gwydn:

- Rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol.
- Cadwraeth bioamrywiaeth.
- Ynni gwyrdd a datgarboneiddio.

3. Cymunedau Gwydn:

- Gwireddu potensial economaidd.
- Hyrwyddo twristiaeth a hamdden awyr agored.

- Cefnogi'r Gymraeg.

4. Ffyrdd Gwydn o Weithio:

- Cydweithio ar draws tirweddau.
- o Arloesi wrth ddyrannu adnoddau.

Ystyriaethau CDLI: Dylai strategaeth a pholisïau'r cynllun alinio â blaenoriaethau trwy sicrhau y caiff rhinweddau arbennig y parc cenedlaethol, ei dirwedd a'i amgylchedd, gan gynnwys ei fioamrywiaeth, eu diogelu a'u gwella. Dylai'r cynllun hefyd hyrwyddo cymunedau gwydn a mynd i'r afael â'r pwysau tymor hwy ar y dirwedd gan gynnwys newid hinsawdd.

Polisi Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru, 2017

Yn amlinellu blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy. Mae'n canolbwyntio ar dir, môr ac aer, gan anelu at wella ffyniant tra'n gwella'r amgylchedd. Mae'r pwyntiau allweddol yn cynnwys:

1. **Amcanion Economaidd ac Amgylcheddol:** Mae'r NRP yn pwysleisio bod buddsoddi mewn adnoddau naturiol yn gost-efeithiol ac yn hanfodol i ffyniant Cymru. Mae'n integreiddio nodau economaidd ac amgylcheddol.
2. **Sectorau a Chyfleoedd:** Mae diwydiannau fel ffermio, coedwigaeth, pysgodfeydd, ynni a dŵr yn defnyddio adnoddau naturiol yn uniongyrchol. Mae'r NRP yn nodi cyfleoedd i wella cadwyni gwerth a manteisio ar farchnadoedd sy'n tyfu, megis ynni adnewyddadwy a charbon.
3. **Ystyriaethau Brexit:** O ystyried y fframwaith sydd wedi'i integreiddio â'r UE ar gyfer rheoleiddio adnoddau naturiol, mae Brexit yn peri heriau.

Nod yr NRP yw cefnogi sectorau allweddol trwy wella gallu prosesu, cynnal safonau ansawdd, a mwy

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn ymgorffori rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol drwy gydol y gwaith o baratoi'r cynllun, yn cefnogi gwydnwch ecosystemau, addasu i'r hinsawdd a budd net i fioamrywiaeth, ac yn sicrhau lles cymdeithasol ac economaidd gan gynnwys manteision ar gyfer iechyd a lles.

Cynllun Cynefin Cymru 2024 - 2025

Nodiadau:

Mae'r cynllun amaeth-amgylcheddol newydd hwn yn cefnogi ffermwyr i reoli tir ar gyfer bioamrywiaeth, storio carbon, ac ansawdd dŵr. Mae'n disodli'r cynllun Glastir Uwch ac yn cefnogi'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod strategaeth a pholisïau'r CDLI yn diogelu safleoedd dynodedig a chynefinoedd pwysig ac yn cefnogi cysylltedd.

Canallawiau arfer da: cynllunio ar gyfer cadwraeth a gwella awyr dywyll yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, 2025

Mae'r Canllawiau Arfer Da: Cynllunio ar gyfer Cadwraeth a Gwella Awyr Dywyll yng Nghymru yn darparu fframwaith cenedlaethol i helpu cynllunwyr, datblygwyr a chymunedau i leihau llygredd golau a diogelu awyr dywyll eithriadol Cymru. Mae'n cefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac yn alinio â pholisi cynllunio cenedlaethol, gyda'r nod o gydbwysu'r angen am olau â diogelu bioamrywiaeth, treftadaeth ac iechyd dynol.

Amcanion Allweddol

- Gwarchod a gwella awyr dywyll trwy gynllunio a dylunio.
- Lleihau llygredd golau i amddiffyn bioamrywiaeth, iechyd dynol, a threftadaeth ddiwylliannol.
- Hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon.
- Cefnogi awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr gydag egwyddorion dylunio ymarferol.

Egwyddorion Goleuo Arfer Da

- Goleuo lle bo angen yn unig – osgoi gor-oleuo ac annibendod.
- Defnyddio'r golau cywir – tymereddau lliw cynnes ($\leq 2700K$).
- Rheoli goleuadau – defnyddio switshis pylu, amseryddion, neu synwryddion symudiad (PIR).
- Lleihau disgleirdeb – ddim yn fwy disglair nag sydd angen.
- Uchderau mowntio is - lleihau gollyngiadau golau.
- Osgoi goleuadau ger bywyd gwyllt – gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau.
- Cyfyngu ar ollyngiadau golau mewnol – yn enwedig mewn ardaloedd sensitif.

Ystyriaethau Cynllunio a Dylunio

- Integreiddio egwyddorion awyr dywyll i Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau).
- Asesu effeithiau goleuadau ar dirwedd, bioamrywiaeth ac amwynder.
- Cymhwyso canllawiau i oleuadau preswyl, masnachol, amaethyddol, treftadaeth a thir cyhoeddus.
- Annog ôl-osod goleuadau presennol i fodloni safonau awyr dywyll.

Manteision Gweithredu

- Gwella iechyd a lles y cyhoedd.
- Gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecolegol.
- Gwella ansawdd bywyd ac amwynder preswyl.

Cefnogi twristiaeth a hunaniaeth ddiwylliannol trwy sêr-syllu a threftadaeth.

Ystyriaethau CDLI: Datblygu fframwaith polisi i warchod a gwella ardaloedd tywyllaf y Parc Cenedlaethol trwy reoli goleuadau allanol a mewnol ar ddatblygiadau newydd a chyfrannu hefyd at fudd net i fioamrywiaeth a lliniaru'r

hinsawdd.

Siarter Creu Lleoedd Cymru (2020)

Cafodd y Siarter a lansiwyd yn 2020, ei datblygu gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru ar y cyd â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru. Fe'i datblygwyd i adlewyrchu ymrwymiad cyfunol ac unigol sefydliadau i gefnogi creu lleoedd o ansawdd uchel ledled Cymru. Mae'r Siarter yn amlinellu chwe egwyddor sydd â'r nod o hyrwyddo ansawdd, cynaliadwyedd a'r gymuned o ran cynllunio a datblygu ledled Cymru. Yr egwyddorion hyn yw: cynnwys y gymuned, lleoliadau cynaliadwy, blaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, creu mannau cyhoeddus diogel a chroesawgar, hyrwyddo cymysgedd o ddefnyddiau, a pharchu hunaniaeth leol. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gyd-lofnodwr ar gyfer y Siarter Creu Lleoedd, ochr yn ochr â'r Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod polisïau'n nodi meini prawf i gyflawni safonau dylunio uchel sy'n parchu cymeriad tirwedd a chapasiti'r parc cenedlaethol ac yn cyfrannu at nodweddion lleol a chreu lleoedd, gan barchu treftadaeth naturiol, ddiwylliannol ac adeiledig y Parc. Hyrwyddo dylunio ynni-efeithlon sy'n ymateb i'r hinsawdd ar gam cynnar yn y broses ddylunio trwy ddwyseddau a phatrymau datblygu priodol ac atebion sy'n seiliedig ar natur gan gynnwys SDCau a seilwaith gwyrdd.

Cynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymru

Mae'r cynllun yn gosod gweledigaeth i wneud Cymru y genedl fwyaf cyfeillgar yn Ewrop i bobl LHDTTC+ drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau presennol a herio gwahaniaethu fel bod pobl LHDTTC+ yn teimlo'n ddiogel i fyw a charu'n agored a rhydd, yn driw iddyn nhw eu hunain. Mae'n cynnwys ystod eang o gamau gweithredu polisi-benodol yn ymwneud â hawliau dynol, addysg, gwella diogelwch, tai, iechyd a gofal cymdeithasol, chwaraeon, diwylliant, a hyrwyddo cydlyniant cymunedol.

Ystyriaethau CDLI: Bydd y Cynllun yn ceisio datblygu strategaeth a pholisïau sy'n cyfeirio twf i leoliadau cynaliadwy ac yn cefnogi cyfleoedd i wella cynhwysiant trwy ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau hygyrch a mynediad at dtrafnidiaeth, mannau agored a thai priodol.

Rhanbarthol:

Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021

Mae Cynllun Corfforaethol Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru yn amlinellu'r amcanion a'r mentrau ar gyfer y rhanbarth, gan ganolbwyntio ar ddatblygu economaidd, cynllunio trafndiaeth a chynaliadwyedd. Y weledigaeth yw i'r

rhanbarth fod yn wydn, cynaliadwy a mentrus, gan gyflawni economi carbon sero-net erbyn 2050. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd seilwaith digidol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac economaidd-gymdeithasol.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod gweledigaeth, amcanion a strategaeth y CDLI yn cyd-fynd â'r cynlluniau ar gyfer rhanbarth y de-orllewin.

Datganiad Ardal De Orllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, (ar waith)

Mae Datganiadau Ardal De Orllewin Cymru'n cynnwys ardal Awdurdodau Lleol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae'n nodi'r prif risgiau, y cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer adeiladu cydnerthedd ecosystemau a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy o dan bedwar maes allweddol:

1. Lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy 1. Darparu mynediad at fannau gwyrdd agored a seilwaith gwyrdd trefol, 2. Annog gweithgareddau hamdden a defnydd o deithio llesol gwyrdd a glas a 3. Diogelu'r amgylchedd er ein lles
2. Sicrhau rheoli tir yn gynaliadwy trwy gefnogi amaethyddiaeth a chynhyrchu cynaliadwy, gwella ansawdd a swm dŵr, cynyddu storfeydd carbon mewn priddoedd a biomas, gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, lleihau'r risg o lifogydd a chefnogi cyflogaeth ddiogel a sefydlog.
3. Gwyrddo'r dirywiad mewn, a chyfoethogi bioamrywiaeth trwy sicrhau ein bod ni i gyd yn gwerthfawrogi ac yn deall pwysigrwydd natur, gwella cysylltedd rhywogaethau a chynefinoedd, a sicrhau bod arbenigedd priodol a data da ar gael i wneud penderfyniadau gwybodus
4. Lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy ddulliau sy'n seiliedig ar ecosystemau, gwella aer, mynd i'r afael ag ansawdd sŵn, a mwy o ynni adnewyddadwy.

Mae pob adran wedi'i hategu gan dystiolaeth a gyflwynir ar Borth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn ymgorffori rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol drwy gydol y gwaith o baratoi'r cynllun, yn cefnogi gwydnwch ecosystemau, addasu i'r hinsawdd a budd net i fioamrywiaeth, ac yn sicrhau lles cymdeithasol ac economaidd gan gynnwys manteision ar gyfer iechyd a lles.

De Orllewin Cymru – Cam 1 Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (2022)

Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (SFCA) ar gyfer Cyngor Sir Gâr, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Abertawe, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae cam 1 yr asesiad yn astudiaeth wrth ddesg sy'n casglu gwybodaeth sydd ar gael yn barod er mwyn cynnal asesiad eang o'r perygl llifogydd posibl ar draws ardal yr astudiaeth o bob ffynhonnell llifogydd. Mae'n nodi'r ardaloedd lle mae'r mwyaf o berygl o lifogydd ac yn rhoi manylion am achosion o lifogydd hanesyddol a manylion gweithdrefnau neu strwythurau rheoli perygl llifogydd

Ystyriaethau CDLI: Cynnal Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (ASGLI) i asesu risg llifogydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun.
<u>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion, Cyngor Sir Ceredigion 2013 (Mabwysiadwyd)</u>
<u>Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin, Cyngor Sir Gaerfyrddin 2014 (Mabwysiadwyd)</u>
<u>Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2018 – 2033 Diwygiedig Ailadnewo</u>
Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn gyson â blaenoriaethau a strategaeth cynlluniau cyfagos a chydweithio lle y bo'n bosibl.
<u>Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd Sir Gâr 2024-2030</u>
Strategaeth i reoli perygl llifogydd yn Sir Gâr wrth reoli newid hinsawdd. Mae'r strategaeth yn hyrwyddo cadernid a llesiant cymunedol ac yn ceisio gwella'r amgylchedd naturiol ag atebion ar sail natur. Mae'r strategaeth yn meithrin dull dan arweiniad y gymuned.
<u>Cynllun Rheoli Traethlin 2, Grŵp Arfordirol Gorllewin Cymru</u>
<u>Cynllun Rheoli Traethlin 2, Grŵp Peirianney Arfordirol Bae Abertawe a Chaerfyrddin</u>
Mae'r Cynlluniau Rheoli Traethlin yn gynlluniau strategol ar gyfer rheoli risg llifogydd arfordirol ar hyd arfordir gorllewinol ac arfordir deheuol Sir Benfro dros y 100 mlynedd nesaf. Mae'r cynllun yn ystyried sut y dylid risg perygl llifogydd ac erydiad arfordirol dros y byrdymor (cyfnod 1: 2005 i 2025), y tymor canolig (cyfnod 2: 2025 i 2055) a'r hirdymor (cyfnod 3, 2055 i 2105). Mae'r cynllun yn nodi gwahanol opsiynau polisi: - Dal y Llinell i gynnal neu newid y safon amddiffyn bresennol - Symud y Llinell Ymlaen i adeiladu amddiffynfeydd newydd tua'r môr o'r amddiffynfeydd presennol - Adlinio a Reolir i ganiatáu i'r traethlin symud tua'r tir neu tua'r môr mewn ffordd a gynllunnir - Dim Ymyrraeth Weithredol lle nad oes buddsoddiad nac ymyrraeth newydd mewn amddiffynfeydd môr, a gall yr arfordir esblygu'n naturiol Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn ystyried risg arfordirol a dulliau rheoli CRhTau i lywio strategaeth a pholisïau'r cynllun i nodi lle y dylid osgoi neu gyfyngu ar ddatblygiad.
<u>Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru 2021-2027, Cyfoeth Naturiol Cymru (2025), Grŵp Arfordirol Gorllewin Cymru</u>
Mae Cynllun Rheoli Basnau Afonydd Gorllewin Cymru (2021-2027) yn fframwaith sydd wedi'i ddylunio i warchod a gwella amgylchedd dŵr yn Rhanbarth Basnau Afonydd Gorllewin Cymru er budd pobl a bywyd gwyllt. Mae'n darparu strategaeth gyffredinol ar gyfer rheoli dyfroedd gan gynnwys afonydd, llynnoedd, camlesi, dyfroedd daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol. Mae'r cynllun yn crynhoi:

- Cyflwr presennol yr amgylchedd dŵr
- - Pwysau sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr
- - Amcanion a nodau ar gyfer gwarchod a gwella dyfroedd
- Y mesurau a'r camau gweithredu angenrheidiol i gyflawni'r amcanion
- Cynnydd ers cynllun 2015.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r CDLI alinio ei strategaeth a'i bolisïau twf i gefnogi'r broses o gyflawni atebion sy'n seiliedig ar natur, adfer cynefinoedd a rheoli dalgylchoedd afonydd.

Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru: Lle De Orllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (2023 – 2029)

Mae Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Lle De Orllewin Cymru (FRMP) yn disgrifio strategaethau i reoli perygl llifogydd mewn mannau allweddol ledled Cymru rhwng 2023 a 2029.

1. Cwmpas a Diben:

- Mae'r FRMP yn cynnwys Cymru gyfan ac mae'n rhoi sylw i lifogydd o afonydd, cronfeydd dŵr, a'r môr.
- Mae'n cynnwys gwybodaeth am raddau'r perygl llifogydd ac yn nodi blaenoriaethau i reoli llifogydd.

2. Camau Gweithredu a Mesurau:

- Mae'r cynllun yn cynnig camau i liniaru perygl llifogydd ar lefelau cenedlaethol a lleol.
- Mae'n ystyried addasu a lliniaru ar gyfer newid yn yr hinsawdd.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r cynllun gyfeirio twf i ffwrdd o ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd a sicrhau mesurau lliniaru priodol. Dylai'r cynllun gefnogi atebion sy'n seiliedig ar natur a gwydnwch newid hinsawdd.

Porthladd Rhydd Celtaidd

Ym mis Medi 2022, gofynnodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am gynigion ar gyfer sefydlu Porthladd(oedd) Rhydd yng Nghymru. Cafodd y cais llwyddiannus am Borthladd Rhydd Celtaidd ei baratoi gan gonsortium sector cyhoeddus / sector preifat sy'n cynnwys Associated British Ports, Cyngor Castellnedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Phorthladd Aberdaugleddau. Cafodd strwythurau llywodraethu'r Porthladd Rhydd eu sefydlu yn 2023, gyda'r achos busnes terfynol yn cael ei gyflwyno a'r Porthladd Rhydd yn cael ei ddynodi yn 2024. Disgwylir iddo gynhyrchu manteision economaidd sylweddol, gan gynnwys £900 miliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros erbyn 2030 a £13 biliwn erbyn 2050. Mae'r fenter hon yn gyfle sylweddol i Sir Benfro, yn unol â dyheadau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i sbarduno trawsnewid ynni a thwf economaidd.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r CDLI ddatblygu strategaeth a pholisïau addas i gyfeirio twf economaidd i leoliadau addas, cynaliadwy.

Datganiadau technegol rhanbarthol ar gyfer Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru (Ail Adolygiad) Medi 2020

Pwrpas y RTS yw sicrhau cyflenwad digonol a chyson o agregau ar gyfer y diwydiant adeiladu a diwydiannau eraill, gan ystyried amcanion allweddol y cyflenwad cynaliadwy o fwynau fel y nodir yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 (MTAN1).

Strategaeth Ynni Rhanbarthol: De orllewin Cymru (2022)

Mae Strategaeth Ynni Rhanbarthol De-orllewin Cymru yn amlinellu gweledigaeth feiddgar ar gyfer cyflawni system ynni carbon sero net erbyn 2050, gyda charreg filltir allweddol o leihau allyriadau gan 55% erbyn 2035. Mae'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn canolbwyntio ar harneisio potensial ynni adnewyddadwy cyfoethog y rhanbarth i greu dyfodol ffyniannus, teg a chynaliadwy.

Gweledigaeth a Nodau Allweddol

- Sero net erbyn 2050, gyda gostyngiad o 55% mewn allyriadau erbyn 2035.
- Nod i ddatgarboneiddio sectorau trydan, gwres a thrafnidiaeth.
- Pwysleisio cydlyniant rhanbarthol, datblygu sgiliau, a thwf economaidd.

Blaenoriaethau Strategol

• Effeithlonrwydd Ynni:

- o Inswleiddio 161,000 o gartrefi.
- o Gosod 78,000 o bympiau gwres.

• Cynhyrchu Trydan:

- o Ehangu ynni gwynt ar y môr o 50MW i 696MW.
- o Ychwanegu 800MW o ynni gwynt ar y tir a 1,215MW o PV solar.
- o Datblygu 1,061MW o ynni morol (e.e. morlyn llanw, ynni gwynt arnofiol ar y môr).

• Systemau Clyfar a Hyblyg:

- o Cefnogi cynhyrchiant ynni lleol a hyblygrwydd grid.

Datgarboneiddio Gwres:

- o Newid o danwyddau ffosil i wresogi carbon isel (e.e. hydrogen, trydaneiddio).

• Datgarboneiddio Trafnidiaeth:

- o 78% o gerbydau i fod yn drydan erbyn 2035.
- o Hyrwyddo trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol.
- o Datblygu seilwaith ail-lenwi cerbydau trydan sy'n defnyddio celloedd tanwydd hydrogen.

Effaith Economaidd ac Amgylcheddol

- Angen buddsoddiad o £4 biliwn i gyflawni'r weledigaeth ynni.
- Amcangyfrifir y creir:
 - o 12,500 o swyddi net a 3,700 o swyddi gros ym maes effeithlonrwydd ynni.
 - o 925 o swyddi mewn gwres domestig.
- Defnydd o ynni wedi gostwng gan 26% (2005–2017).
- Allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng gan 14% ers 1990.

Targedau Lleihau Allyriadau Sectoraidd erbyn 2035

- Domestig: 58%
- Masnachol a Diwydiannol: 56%
- Trafnidiaeth: 51%

Mae'r strategaeth hon yn sicrhau bod De-orllewin Cymru yn arweinydd yn y trawsnewidiad i economi carbon isel, gan fanteisio ar ei adnoddau naturiol a'i gryfderau cymunedol i sicrhau manteision amgylcheddol ac economaidd hirdymor.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod strategaeth, polisïau a chynigion y cynllun yn ymateb yn briodol i'r argyfwng hinsawdd a'r newid i sero net trwy leihau'r angen i deithio ac annog teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, hyrwyddo datblygiad carbon isel ac adeiladau ynni-effeithlon, a chefnogi ynni adnewyddadwy lle bo hynny'n briodol yn y dirwedd a seilwaith gwyrdd. Byddai hyn hefyd yn arwain at fanteision ieuchyd, cydraddoldeb, bioamrywiaeth a thwf economaidd posibl.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru (2025–2030), Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru

Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru (2025–2030) yn amlinellu gweledigaeth strategol ar gyfer gwella trafndiaeth ar draws Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe:

"System drafnidiaeth sy'n gyrru twf economaidd cynaliadwy, yn cefnogi datgarboneiddio'r system drafnidiaeth, ac yn sicrhau symudedd effeithlon, hygyrch o fewn a'r tu hwnt i'r rhanbarth at bob diben."

Mae'r cynllun yn cyd-fynd â'r Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol ac yn nodi chwe amcan:

- Gwella teithio llesol
- Cefnogi twf economaidd
- Alinio â hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy Llywodraeth Cymru
- Cydnabod y cymunedau amrywiol a'u hanghenion trafndiaeth amrywiol
- Datblygu rhwydwaith trafndiaeth cysylltiedig, fforddiadwy a hygyrch.
- Gwneud trafndiaeth gynaliadwy yn haws ei defnyddio, yn ddeniadol ac yn fforddiadwy
- Hyrwyddo dewis teithio cynaliadwy.

Mae'r Cynllun yn cynnwys 21 o bolisiâu. Mae Polisi 6: 'Ardaloedd Gwledig a Darpariaeth Trafnidiaeth' yn cydnabod heriau hygyrchedd gwledig gyda ffocws cryf ar wella cysylltedd drwy Drafnidiaeth Seiliedig ar Alw a thrafnidiaeth gymunedol. Nod Polisi 21: 'Twristiaeth a Thrafnidiaeth' yw gwella mynediad a phrofiad twristiaid trwy wella cyfleoedd i dwristiaid gyrraedd drwy ddulliau cynaliadwy a defnyddio dulliau teithio cynaliadwy neu wefru cerbydau allyriadau isel iawn (ULEV).

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y strategaeth yn cyfeirio datblygiad i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy gyda mynediad at wasanaethau a chyfleusterau trwy ddulliau teithio cynaliadwy. Hyrwyddo'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy i roi blaenoriaeth i fodloni'r galw am deithio trwy: teithio llesol trwy gerdded a beicio ar draws trefi a phentrefi; cynyddu mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a chefnogi seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn mewn lleoliadau priodol. Bydd y mesurau hyn hefyd yn cefnogi iechyd corfforol a meddyliol, yn lleihau anghydraddoldebau ac yn cyfrannu at sero net trwy ddatgarboneiddio teithio.

Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru

Mae **Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru (2022)** yn amlinellu gweledigaeth strategol ar gyfer trawsnewid economi'r rhanbarth erbyn 2030. Mae'n canolbwyntio ar adeiladu economi wyd, gynhwysol a chynaliadwy ar draws Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. Mae'r cynllun yn ymateb i heriau fel newid hinsawdd, Brexit, ac adfer ar ôl y pandemig, tra'n manteisio ar gryfderau'r rhanbarth mewn ynni, arloesi, ac asedau naturiol.

Mae'r cynllun wedi'i strwythuro o amgylch tair cenhadaeth sy'n cefnogi ei uchelgeisiau cyffredinol:

- **Cenhadaeth 1: Ynni Adnewyddadwy a Sero Net**

Sicrhau bod y rhanbarth yn arweinydd mewn ynni gwyrdd a datgarboneiddio diwydiannol.

- **Cenhadaeth 2: Sylfaen Fusnes Wydn**

Cryfhau BBaChau, hyrwyddo entrepreneuriaeth, a chefnogi arloesedd.

- **Cenhadaeth 3: Economi Profiad**

Gwella twristiaeth, diwylliant, ac ansawdd bywyd i ddenu talent a buddsoddiad.

Amcanion Allweddol

- Datblygu llif prosiectau gwerth £3 biliwn wedi'i alinio â chenhadaethau strategol.
- Cefnogi twf cynhwysol a lleihau anghydraddoldebau rhanbarthol.
- Hyrwyddo cydweithredu ar draws sectorau cyhoeddus, preifat ac academiaidd.
- Alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a fframweithiau Llywodraeth Cymru.
- Meithrin arloesedd a chynaliadwyedd mewn ynni, busnes a datblygu cymunedol.

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r sylfaen dystiolaeth asesu dyheadau presennol a dyheadau'r dyfodol ar gyfer yr economi a llywio'r strategaeth a pholisïau i gefnogi twf economaidd cynaliadwy, canol trefi bywiog, twristiaeth adfywiol ac arallgyfeirio'r economi wledig.

Lleol:

[Cynllun Datblygu Cyngor Sir Penfro Lleol, Cyngor Sir Penfro 2013 \(Mabwysiadwyd\)](#)
[Cyngor Sir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2, Cynllun Adneuo 2 2017-2033](#)

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn gyson â blaenoriaethau a strategaeth cynlluniau cyfagos a chydweithio lle y bo'n bosibl.

[Cynllun Partneriaeth 2025 – 2029, Arfordir Penfro](#)

Mae'r Cynllun Partneriaeth yn darparu fframwaith strategol i lywio ymdrechion cydweithredol partneriaid a rhanddeiliaid allweddol wrth warchod, gwella a rheoli'r Parc Cenedlaethol yn gynaliadwy dros y pum mlynedd y mae'r cynllun yn eu cwrmpasu.

Nod y cynllun yw cydlynu gwaith rhanddeiliaid amrywiol gan gynnwys cyrff cyhoeddus, cymunedau ac unigolion, a chyflawni dibenion statudol y Parc Cenedlaethol: cadwraeth, mwynhad y cyhoedd, a dealltwriaeth.

Mae'r cynllun wedi'i strwythuro o amgylch pedair thema graidd:

1. **Cadwraeth**

- Gwarchod a gwella tirweddau, bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol y Parc.
- Mynd i'r afael â bygythiadau fel colli cynefinoedd, llygredd, a rhywogaethau goresgynnol.

2. **Cysylltiad**

- Meithrin ymgysylltiad cyhoeddus dyfnach â natur a threftadaeth.
- Gwella mynediad a chynhwysiant, gan sicrhau y gall pob cymuned fwynhau ac elwa o'r Parc.

3. **Yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol**

- Cefnogi gwydnwch ac addasu i'r hinsawdd.
- Hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy o adnoddau tir a morol.
- Annog arferion carbon isel ac atebion sy'n seiliedig ar natur.

4. **Cymunedau**

- Cryfhau cymunedau lleol trwy ddatblygu cynaliadwy.

Arfarniad o Gynaliadwyedd **Cynllun Datblygu Lleol 3**

Atodiad A – Adolygiad o Gynlluniau, Polisiau a Rhaglenni Perthnasol

- Cefnogi lles, cyfleoedd economaidd, a hunaniaeth ddiwylliannol.
- Annog cyfranogiad gweithredol mewn penderfyniadau a stiwardiaeth.

Ystyriaethau CDLI: Mae'r Cynllun Partneriaeth a'r CDLI yn ddau gynllun statudol ar gyfer y Parc Cenedlaethol a dylai strategaeth a pholisïau'r CDLI gefnogi'r weledigaeth, yr amcanion a'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Partneriaeth. Dylai'r CDLI alinio a hyrwyddo'r camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Partneriaeth dros y pedair thema graidd, sef cadwraeth, cysylltiad, yr hinsawdd ac adnoddau naturiol, a chymunedau.

Cynllun Corfforaethol Awdurdod y Parc Cenedlaethol 23/24-26/27

Mae Cynllun Corfforaethol Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn nodi'r amcanion llesiant corfforaethol (un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) a'r camau sy'n ofynnol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion a sut bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn pum ffordd o weithio yng ngweithgareddau'r awdurdod.

Cynllun Llesiant Sir Benfro (2023)

Mae gofyniad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar Fyrddau Gwasanaeth Lleol i gynhyrchu Cynllun Llesiant, sy'n disgrifio sut y bydd yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol eu hardal. Mae'r broses o ddatblygu Cynllun Llesiant yn dechrau gydag Asesiad Llesiant i gasglu data gwaelodlin ac i ddeall y problemau, a bydd y broses hon wedyn yn llywio datblygiad yr Amcanion Llesiant.

Mae Cynllun Llesiant Sir Benfro yn nodi'r weledigaeth ganlynol:

"datgloi pŵer a photensial pobl a chymunedau Sir Benfro fel eu bod yn hapus, yn iach ac yn byw'n dda, ein cymunedau'n garedig, diogel, dyfeisgar a bywiog, ein heconomi'n wyrdd a ffyniannus, a'n hamgylchedd yn cael ei warchod a'i wella."

Mae pedwar amcan llesiant wedi'u nodi i weithredu fel y fframwaith a ddefnyddir gan y BGC i flaenoriaethu meysydd ffocws allweddol yn y cynllun llesiant. Y pedwar amcan yw:

- Cefnogi twf, swyddi a ffyniant a galluogi'r trawsnewidiad i economi fwy cynaliadwy a gwyrdd
- Gweithio gyda'n cymunedau i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant
- Hyrwyddo a chefnogi mentrau i gyflawni datgarboneiddio, rheoli camau addasu i'r hinsawdd a mynd i'r afael â'r argyfwng natur
- Galluogi cymunedau diogel, cysylltiedig, dyfeisgar ac amrywiol

Bydd y Cynllun Llesiant yn cael ei gyflawni drwy nifer o gynlluniau a chamau gweithredu prosiect i gyflawni'r amcanion llesiant:

Lleihau tlodi ac anghydraddoldebau – mae gan y cynllun brif gamau gweithredu i ddefnyddio cyllid byrdymor i ymateb i'r

argyfwng costau byw a datblygu strategaeth tlodi

Cryfhau Cymunedau – bydd y cynllun yn gwella dealltwriaeth o'n cymunedau dwyieithog, yn cynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad ar draws cymunedau Sir Benfro ac yn meithrin hyder, capasiti a gallu cymunedau.

Bioamrywiaeth a'r Argyfwng Natur - codi proffil a newid y ffordd yr ydym yn meddwl am weithredu dros fioamrywiaeth a rôl holl bartneriaid y BGC wrth fynd i'r afael â'r argyfwng natur a gweithio ar y cyd i gyflawni camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) ar gyfer Sir Benfro.

Addasu i'r Hinsawdd – cydlynu gweithrediad y Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Sir Benfro.

Datgarboneiddio a Sero Net – gweithio gyda'n gilydd i rannu arfer da, cyflawni camau lleihau carbon a lleihau'r defnydd o garbon i sero net erbyn 2030 a monitro a chefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL) Sir Benfro

Ystyriaethau CDLI: Sicrhewch fod y CDLI yn cyd-fynd â nodau llesiant ac â'r amcanion a gweithredoedd a nodwyd yn Nhrefniant Llesiant Sir Benfro i gryfhau cymunedau dwyieithog er cefnogi swyddi a chyfoeth a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, ac yn ogystal â mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Trechu Tlodi: Ein Strategaeth 2023, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

Mae'r strategaeth yn ymateb i dystiolaeth o gyfraddau uchel o dlodi plant yn Sir Benfro. Mae'r strategaeth yn nodi prif ffactorau sy'n creu tlodi, gan gynnwys costau gofal plant, trafnidiaeth a chyflogaeth. Y weledigaeth yw i bartneriaid weithio'n well gyda'i gilydd i gefnogi pobl yr effeithir arnynt gan dlodi fel bod camau ataliol yn cael eu cymryd. Mae'r strategaeth yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar atal.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod gweledigaeth, amcanion, strategaeth, polisïau a chynigion y CDLI yn darparu tai priodol, gan gynnwys tai fforddiadwy mewn lleoliadau hygyrch gyda mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a gwasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys gofal plant, canolfannau ieuchyd, addysg a gwaith.

Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Sir Benfro 2022

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro a'i bartneriaid sydd wedi datblygu'r Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Sir Benfro. Mae'r Strategaeth yn ceisio mynd i'r afael â'r newidiadau a ragwelir i'r hinsawdd a meithrin cadernid Sir Benfro dros gyfnod o bum mlynedd rhwng 2022 a 2027. Mae'r strategaeth yn ystyried nifer o risgiau i'r hinsawdd a allai effeithio ar yr economi leol, yr amgylchedd naturiol, seilwaith, cymunedau a llesiant ac yn ceisio addasu i effeithiau newid hinsawdd, gan gynnwys tywydd eithafol a lefelau'r môr yn codi.

Mae'r strategaeth yn nodi pedair thema allweddol:

- Pobl a chymunedau
- Yr amgylchedd naturiol
- Yr amgylchedd adeiledig
- Economi a seilwaith.

Arfarniad o Gynaliadwyedd **Cynllun Datblygu Lleol 3**

Atodiad A – Adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol

Ar draws pedair thema, ceir 39 o flaenoriaethau addasu i'r hinsawdd, sydd fel rhestr wirio wrth wneud penderfyniadau a chynllunio ar gyfer y dyfodol yn Sir Benfro. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi 24 cam gweithredu sy'n benodol i addasu i'r hinsawdd er mwyn gwella cadernid i'r hinsawdd ar draws gwahanol feysydd, gan gynnwys seilwaith, cymunedau, yr amgylchedd naturiol, amaethyddiaeth, busnes a diwydiant.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod strategaeth, polisïau a chynigion y cynllun yn ymateb yn briodol i'r argyfwng hinsawdd ac yn cyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol gan ystyried camau lliniaru ac addasu i'r hinsawdd a diogelu a gwella'r amgylchedd.

Cynllun Rheoli Hamdden 5 Mlynedd Aberdaugleddau, Porthladd Aberdaugleddau 2021

Mae “**Cynllun Rheoli Hamdden 5 Mlynedd Aberdaugleddau**” yn gynllun 5 mlynedd i wella cyfleoedd hamdden o fewn Dyfrffordd Aberdaugleddau. Mae'r dull cydweithredol hwn yn cynnwys cynllunio, monitro a rheoli cyfleoedd hamdden Aberdaugleddau. Mae'r cynllun yn cynnwys canllawiau clir ar sut mae porthladd Aberdaugleddau cynorthwyo ymwelwyr sy'n cyrraedd ar ddŵr drwy gydol y flwyddyn¹.

Mae agweddau allweddol y cynllun yn cynnwys:

1. Gwella'r Gallu Peilotiaeth: Nod MHPA yw ehangu ei wasanaethau peilotiaeth sydd o safon ryngwladol.
2. Datblygu Aberdaugleddau fel Cychfan. Y nod yw sefydlu Aberdaugleddau fel lle poblogaeth i fyw, ymweld, chwarae a mwynhau.
3. Hyb Ynni Adnewyddadwy: Mae MHPA am ddatblygu gweithrediadau amlbwrpas presennol y porthladd a sefydlu Porthladd Penfro fel un o brif hybiau ynni adnewyddadwy'r DU.
4. [Cam Cynnar y Cynnig Lletygarwch: Mae cynlluniau ar waith i greu cynnig lletygarwch cam cynnar.](#)

Mae'r cynllun yn dangos y camau sy'n cael eu cymryd gan MHPA a'i bartneriaid i sicrhau bod cyfleusterau hamdden priodol ar gael i'r sawl am fwynhau'r Haven3.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y CDLI yn hyrwyddo twristiaeth adfywiol a hamdden cynaliadwy i adfer neu wella tirwedd, bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol yn weithredol a chyflawni manteision ehangach ar gyfer iechyd a lles. Bydd polisïau yn diogelu ansawdd dŵr a safleoedd dynodedig.

Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth Sir Benfro, Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

Nodiadau: Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth Sir Benfro (LBAP) yw'r prif gyfrwng a fydd yn galluogi Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gyfrannu at UKBAP sy'n deillio o'r Confensiwn ar Gadwraeth Amrywiaeth Fiolegol. Mae'r gwaith cynllunio a gweithredu'n cael ei gydlyn gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro, grŵp o 14 o sefydliadau sy'n cynnwys Awdurdod y Parc Cenedlaethol, a bydd integreiddio'r LBAP yn llawn yn parhau gyda rhannau perthnasol Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Mae'r LBAP yn fodd pwysig i 'gydlyn' gwaith cadwraeth a galluogi partneriaid i gymryd golwg ehangach o'r mesurau cadwraeth sydd eu hangen. Dylanwadu rheolwyr safleoedd nad ydynt yn eiddo i bartneriaid a sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau ychwanegol.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod strategaeth a pholisïau'r cynllun ar yr amgylchedd naturiol a'i adnoddau, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth, yn cyfrannu at amgylchedd naturiol rhyng-gysylltiedig a gwydn ac yn cyflawni manteision ehangach ar gyfer iechyd, cydraddoldeb a ffyniant.

Cynllun Gweithredu ar Adfer Natur Sir Benfro: Ein Strategaeth ar gyfer Adfer Natur, Partneriaeth Natur Sir Benfro (2018)

Mae Cynllun Gweithredu ar Adfer Natur Sir Benfro yn amlygu'r prif bwysau sydd ar natur yn y sir ac mae'n cyfarwyddo aelodau Partneriaeth Natur Sir Benfro ac yn awgrymu camau y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â'r pwysau rheini mewn cyd-destun deddfwriaethol. Bwriedir iddo arwain at greu syniadau, sgysiaid uniongyrchol a bod yn gyfrwng ar gyfer prosiectau a gweithredu lleol.

Mae themâu y gellir gweithredu arnynt wedi'u nodi o dan chwe amcan strategol:

1. Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i ymgorffori bioamrywiaeth mewn prosesau penderfynu ar bob lefel.
2. Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn a gwella sut maent yn cael eu rheoli.
3. Cynyddu cydnherthedd ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd
4. Mynd i'r afael â'r pwysau mwyaf ar rywogaethau a chynefinoedd
5. Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a monitro
6. Rhoi fframwaith llywodraethu ar waith a helpu i'w gyflawni

Ystyriaethau CDLI: Dylai'r CDLI amddiffyn a gwella safleoedd gwarchodedig a chysylltu cynefinoedd. Dylai'r CDLI integreiddio adferiad natur, gwydnwch ecosystemau, lliniaru ac addasu i'r hinsawdd, bioamrywiaeth a hyrwyddo mynediad at seilwaith gwyrdd i sicrhau lles cymdeithasol ac economaidd gan gynnwys manteision o ran iechyd a lleihau anghydraddoldebau.

Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Benfro 2022

Y weledigaeth ar gyfer system ynni Sir Benfro yw cyflawni allyriadau sero net erbyn 2050 a dod yn gartref i ynni gwyrdd yn y DU. Mae'r cynllun yn nodi natur, graddfa, cyfradd ac amseru'r newidiadau sydd eu hangen i drosglwyddo i system ynni sero net. Mae'r meysydd ymyrraeth â blaenoriaeth yn cynnwys: ôl-ffitio adeiladau cyfan; datblygu ynni adnewyddadwy lleol ar y tir; datgarboneiddio trafndiaeth; defnyddio pymplau gwres, atgyfnerthu'r rhwydwaith dosbarthu trydan, datgarboneiddio diwydiant a threialu pentrefi electroleiddwyr a hydrogen. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd ag adroddiad technegol CYAL Sir Benfro a map llwybr CYAL Sir Benfro.pdf

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod strategaeth, polisïau a chynigion y cynllun yn ymateb yn briodol i'r argyfwng hinsawdd a'r newid i sero net trwy leihau'r angen i deithio ac annog teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, hyrwyddo datblygiad carbon isel ac adeiladau ynni-ffeithlon, a chefnogi ynni adnewyddadwy lle bo hynny'n briodol yn y dirwedd a seilwaith gwyrdd. Byddai hyn hefyd yn arwain at fanteision ieched, cydraddoldeb, bioamrywiaeth a thwf economaidd posibl.

Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro 2024-28

Mae'r cynllun yn nodi bod twristiaeth werth £594 miliwn yn 2022 ac wedi denu 6.6 miliwn o ymwelwyr, gan ddarparu 22.9% o'r gyflogaeth leol. Mae'r cynllun yn cydnabod y dylai'r economi ymwelwyr:

- Fod o fudd i gymunedau lleol gan gynhyrchu bywoliaethau a chyfleoedd incwm cynaliadwy
- Diogelu hunaniaeth ddiwylliannol a thraddodiadau (gan gynnwys iaith, celfyddydau a threftadaeth)
- Cefnogi'r economi gylchol
- Gwarchod yr amgylchedd
- Bod yn gynhwysol i bawb

Mae gan y Cynllun uchelgais i "dyfu twristiaeth er budd Sir Benfro" gyda gweledigaeth "i fod yn arweinydd byd-eang mewn twristiaeth adfywiol". Mae'r blaenoriaethau strategol yn cynnwys: adfywio, digwyddiadau a natur dymhorol, lles a gweithgarwch, naratif a brand cyffredin, a hanfodion gwyb. Mae'r cynllun yn nodi nifer o gamau gweithredu i gefnogi system trafndiaeth gyhoeddus integredig gynaliadwy.

Ystyriaethau CDLI: Gwneud twristiaeth yn fwy adfywiol, gan adfer neu wella tirwedd, bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol yn weithredol, a chyflawni manteision ehangach ar gyfer ieched a lles.

Asesiad Drafft o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) ar gyfer Sir Benfro (2023), wedi'i gytuno gan Lywodraeth Cymru 2025

Mae Cyngor Sir Penfro, fel yr Awdurdod Tai, wedi cynnal adolygiad o anghenion tai lleol yn Sir Benfro, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae'r LHMA yn dilyn y fethodoleg ragnodedig newydd a'r templed a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae Pecyn LHMA yn cyfrifo'r angen am dai fforddiadwy a thai'r farchnad agored yn y dyfodol gan ddefnyddio tystiolaeth o'r angen am dai fforddiadwy presennol sydd heb ei ddiwallu o'r Gofrestr Tai ac yn

amcangyfrif yr angen sy'n codi o'r newydd am ddaliadaethau fforddiadwy ac ar y farchnad agored. Ystyriodd yr LHMA chwe senario; tri senario demograffig yn seiliedig ar amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru a thri senario twf Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r canlyniadau'n dangos:

- Angen fforddiadwy sylweddol sydd eisoes yn bodoli ac sydd heb ei ddiwallu, sy'n sylweddol fwy na'r angen a ragwelir fydd yn codi o'r newydd .
- Mae'r rhan fwyaf o'r angen am dai fforddiadwy ar gyfer eiddo rhent cymdeithasol
- Angen sylweddol am dai un ystafell wely fforddiadwy

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y cynllun yn gosod targed ar gyfer darparu tai fforddiadwy a bod strategaeth, dyraniadau safle a pholisïau'r cynllun yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy i ddiwallu'r angen lleol.

Strategaeth Tai Lleol 2024-2029 Sir Benfro (Cyngor Sir Penfro), 2023

Cyhoeddwyd y Strategaeth Dai Leol ar gyfer Sir Benfro yn 2023 ac mae'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

1. Cynyddu tai fforddiadwy
2. Atal a lliniaru digartrefedd
3. Gwellu ansawdd a chynaliadwyedd tai
4. Cefnogi pobl i fyw'n annibynnol
5. Lleihau ôl troed carbon y stoc dai erbyn 2033

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y cynllun yn gosod targed ar gyfer darparu tai fforddiadwy a bod strategaeth, dyraniadau safle a pholisïau'r cynllun yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy i ddiwallu'r angen lleol mewn lleoliadau hygyrch i leihau allyriadau carbon.

Asesiad Llety Sipsiwn A Theithwyr 2019 - Cymeradwyo 24 May 2024

Nododd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALISTh) 2019 Sir Benfro fod angen dybryd am 9 llain breswyl newydd i ddarparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr erbyn diwedd 2024. Mae ALISTh 2019 yn amcangyfrif bod angen 30 o leiniau pellach o 2025 i 2033, sy'n golygu bod angen cyfanswm o 39 o leiniau erbyn diwedd 2033. Mae lleoliadau cyffredinol yr ardaloedd o angen yn ne Sir Benfro.

Ystyriaethau CDLI: Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda Chyngor Sir Penfro fel yr Awdurdod Tai i sicrhau bod anghenion llety Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe yn cael eu diwallu.

Cynllun Rheoli Maethynnau Afonydd Cleddau a Chynllun Rheoli Maethynnau Afon Teifi, Byrddau Rheoli Maethynnau Gorllewin Cymru 2025

Nod Cynlluniau Rheoli Maethynnau Afonydd Cleddau ac Afon Teifi yw mynd i'r afael â llygredd maethynnau, yn enwedig ffosffadau, yn yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol. Mae'r cynlluniau'n nodi mannau problemus o ran llygredd ac yn cyfeirio camau lliniaru wedi'u targedu trwy wella gwaith trin dŵr gwastraff, rheoli tir yn gynaliadwy ac

Arfarniad o Gynaliadwyedd **Cynllun Datblygu Lleol 3**

Atodiad A – Adolygiad o Gynlluniau, Polisiâu a Rhaglenni Perthnasol

atebion sy'n seiliedig ar natur er mwyn galluogi datblygiad.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod y strategaeth, polisïau a dyraniadau safle'n cyfeirio datblygiadau yn y dyfodol i ffwrdd o'r ACAu a'r cyrff dŵr yr effeithir arnynt neu y gellir dangos niwtraliaeth maethynnau trwy gamau lliniaru addas. Bydd swyddogion yn gweithio gyda Dŵr Cymru i sicrhau bod gan waith trin dŵr gwastraff gapasiti digonol ar gyfer datblygiadau'r dyfodol.

Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) ar gyfer safleoedd 28 diwrnod ar gyfer gwersylla, charafannau a chartrefi symudol. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cymeradwyo cyflwyno

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cymeradwyo cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) er mwyn dileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd gwersylla, carafannau, a chartrefi symudol 28 diwrnod yn y Parc Cenedlaethol.

Ystyriaethau CDLI: Sicrhau bod strategaeth a pholisïau'r CDLI yn cydbwysu manteision economaidd twristiaeth wrth amddiffyn tirwedd, rhinweddau arbennig a chymunedau'r Parc Cenedlaethol.

Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023 – 2028

Mae'r Strategaeth hon yn nodi'r modd y bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn hyrwyddo'r Iaith Gymraeg drwy ei waith a'i feysydd dylanwad. Mae'r Strategaeth yn nodi tri amcan i'r Awdurdod o ran hyrwyddo'r Iaith Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf.

Amcan 1 – Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg bob dydd ar draws yr Awdurdod, gan aelodau'r staff, yr Aelodau a gwirfoddolwyr

Amcan 2 – Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg bob dydd ar draws ein gwasanaethau, prosiectau a gweithgareddau, gan y cyhoedd a'r defnyddwyr gwasanaeth

Amcan 3: Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg bob dydd ar draws pob rhan o'r Parc Cenedlaethol

Ystyriaethau CDLI: Bydd sylfaen dystiolaeth y CDLI yn nodi Ardaloedd sy'n Sensitif o ran y Gymraeg lle mae iaith yn sensitif neu'n bwysig. Bydd y strategaeth a'r polisïau yn sensitif i anghenion cymunedau Cymraeg eu hiaith, yn enwedig o ran tai priodol, seilwaith cymunedol a chyflleoedd cyflogaeth. Bydd effeithiau tebygol y CDLI ar y Gymraeg yn cael eu hasesu drwy'r arfarniad cynaliadwyedd a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.